

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO	PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 17 IONAWR, 2023 am 2.00 o'r gloch yp	TUESDAY, 17 JANUARY, 2023 at 2.00 p.m.
CYFARFOD HYBRID YN YSTAFELL BWYLLOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL TRWY ZOOM	HYBRID MEETING AT COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518
	Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol / The Independent Group

Gwilym O Jones (Is-gadeirydd/Vice-Chair)

Plaid Cymru / The Party of Wales

Non Dafydd, Eurn Morris, Trefor LI Hughes MBE, John I Jones, Dylan Rees
(Cadeirydd/Chair), Margaret M Roberts, Ken Taylor

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

Llafur Cymru/Welsh Labour

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion
addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Sedd
Wag/Vacant Seat (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent
Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwr –
Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector
and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys
Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)

Mr. Dafydd Gruffydd (Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gafwyd ar 23 Tachwedd, 2022.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL - DIOGELU CORFFORAETHOL - TACHWEDD 2021/2022** (Tudalennau 9 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5 **CYNLLUN LLEISIANT DRAFFT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN : 2023/2028** (Tudalennau 51 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

6 **ADRODDIAD CYNNYDD CH 2 - 2022/2023 : BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 65 - 90)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

7 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 91 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022

PRESENNOL: Cyngorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cyngorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Cyngorwyr Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, T LI Hughes MBE, Euryr Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret M Roberts a Ken Taylor.

Aelodau Portffolio

Cyngorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor); Cyngorydd Carwyn Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth); Cyngorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Diogelwch y Cyhoedd); Cyngorydd Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo); Cyngorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg).

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Rheolwr Sgriwtini,
Swyddog Pwyllgorau (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Cyngorydd John I Jones.
Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol).

Cyngorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer),
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

HEFYD YN BRESENNOL: Ms Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn (ar gyfer eitem 4);
Ms Catrin Roberts – Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd) (ar gyfer eitem 5);
Mr Hedd Vaughan Evans (Pennaeth Gweithrediadau) Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd (ar gyfer eitem 6);
Mr Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglenni Digidol) Bwrdd Uchelgais Economaidd y Gogledd (ar gyfer eitem 6);

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Eurn Morris ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 6 – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Bu i'r Cynghorydd T LI Hughes MBE ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd Ac Ynys Môn: 2021/22.

Bu i'r Cynghorydd Dafydd R Thomas ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 - Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd Ac Ynys Môn: 2021/22.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2022 yn gywir, yn amodol ar ychwanegu enw'r Cynghorydd Ken Taylor i'r rhestr o'r aelodau a oedd yn bresennol.

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2021/22

Cyflwynwyd - Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer 2021/22

Dywedodd yr Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol bod gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Nododd bod presenoldeb wedi gwella ers i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal yn rhithiol.

Adroddodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn bod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol, yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn rhoi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Mae gofyniad hefyd i bartoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn dilyn newidiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn o ganlyniad i'r Ddyletswydd Trais Difrifol y flwyddyn nesaf. Aeth ymlaen i ddweud mai un o'r prif heriau y mae'r bartneriaeth yn ei wynebu ar hyn bryd ydi colli grantiau lleol - mae'r holl grantiau a fyddai'n arfer dod i'r bartneriaeth, naill ai wedi dod i ben, neu wedi symud i fod yn grantiau rhanbarthol sy'n cael eu rheoli ar sail Gogledd Cymru. Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol at y data troseddu ar gyfer Ynys Môn ar gyfer Tachwedd 2022 a dderbyniwyd gan y Dadansoddwr Partneriaeth o fewn Heddlu Gogledd Cymru fel y nodir yn yr adroddiad. Aeth ymlaen i nodi yn dilyn cydweithrediad rhwng yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol a'r Cyngor Tref, cyflwynwyd cais llwyddiannus ar gyfer Caerdybi ym mis Mai o dan Gronfa Strydoedd Mwy Diogel 4 y Swyddfa Gartref.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif bwyntiau canlynol:-

- Er eu bod yn croesawu'r cais llwyddiannus o dan y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel 4 ar gyfer Caerdybi, nododd yr aelodau nad oes modd i gymunedau gwledig elwa o brosiect o'r fath a chodwyd cwestiynau ynglŷn ag argaeledd camerau CCTV symudol mewn cymunedau gwledig. Atebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol bod y meini prawf cymhwysra ar gyfer y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel 4 yn ymwneud â'r lefel troseddu a adroddir mewn ardal benodol. Nododd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r Heddlu mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant

Gyffredin ar gyfer cymunedau gwledig. Mewn perthynas â chamerau CCTV nododd mai'r Cynghorau Tref sydd bellach yn gyfrifol am gamerau CCTV, fodd bynnag rhoddodd sicrwydd i'r aelodau y byddai'n gwneud ymholiadau mewn perthynas ag argaeledd camerau CCTV symudol. Nododd y Dirprwy Brif Weithredwr y byddai, fel Cadeirydd y Bartneriaeth, yn codi'r mater yn ystod y cyfarfod nesaf o'r Bartneriaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai pryderon yn ymwneud â throeddau gwledig fod yn fater priodol i'w godi yn Fforwm Gwledig CLILC;

- Cyfeiriwyd at Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 a chodwyd cwestiynau o ran y modd y mae'r bartneriaeth yn gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol bod sefydliadau partner o fewn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gallu creu cysylltiadau a rhannu arbenigedd i sicrhau yr eir i'r afael â materion yn ymwneud â throedd ac anrhefn;
- Codwyd cwestiynau ynglŷn ag effaith y pandemig ar ffigurau troseddu ar yr Ynys. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol bod ffigurau troseddu wedi gostwng yn ystod y pandemig oherwydd bod siopau a thafarndai ar gau ac oherwydd bod pobl yn gweithio o'r cartref. Fodd bynnag, cynyddodd troseddau casineb oherwydd bod pobl yn teithio dros y ffin i ardaloedd gwledig a gwelwyd cynnydd sylweddol mewn twyll ar-lein gan fod mwy o bobl yn prynu nwyddau ar-lein. Dywedodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau wedi cael eu cynnal o fewn y Bartneriaeth yn sgil yr argyfwng costau byw mewn perthynas â'r cynnydd posib mewn troseddu h.y. dwyn o siopau ac o gartrefi;
- Holwyd i ba raddau y mae'r cynllun gweithredu'n ddigon cadarn i ddelio gyda'r meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Ynys Môn. Dywedodd yr Aelodau y byddai'n well ganddynt weld Swyddogion yr Heddlu mewn cymunedau lleol yn siarad gyda thrigolion ynglŷn â'u pryderon. Ymatebodd yr Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ei bod hi'n bwysig bod y Bartneriaeth yn gwneud ceisiadau am gyllid megis o'r Gronfa Strydoedd Mwy Diogel 4. Nododd bod adnoddau ar gael drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer cymunedau gwledig.
- Bu i'r aelodau ystyried gwahodd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod hwn pan fo eitem ar Ddiogelwch Cymunedol ar yr agenda.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.**
- **Gweld a oes modd darparu camerau CCTV symudol drwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol mewn cymunedau gwledig;**
- **Sicrhau bod modd i gymunedau gwledig gymryd mantais o unrhyw gyllid sydd ar gael er mwyn amddiffyn eu cymunedau.**

GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2021-22 (RHAN 9)

Cyflwynwyd - Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2021-22.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno ei Adroddiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth,

gofalwyr a phlant. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Adroddodd Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru) mai rôl y bartneriaeth yw dod â sefydliadau partner ynghyd h.y. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill er mwyn integreiddio gwasanaethau. Mae'r Tîm Rhanbarthol yn rheoli a chefnogi'r sefydliad a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn galluogi i bartneriaid gyflawni'r gwaith. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfarfod yn fisol, ac mae'n gosod cyfarwyddyd clir i sefydliadau partner mewn perthynas â chylch gwaith y Bartneriaeth ar gyfer gwaith sy'n ddisgwyliedig o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw ffrydiau ariannu pwrpasol ac mae ei weithgareddau'n cael eu hariannu drwy gymysgedd o gyllid yr awdurdod lleol wedi'i gyfuno a chyllid cyfalaf a referniw gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Amlygodd waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros y deuddeg mis diwethaf a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Aeth ymlaen i ddweud bod argyfwng ym maes recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd Partneriaeth yn cefnogi pecyn recriwtio cenedlaethol drwy ei sefydliadau partner. Dywedodd y Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol bod Is-grŵp Plant wedi cael ei sefydlu i amlygu gwaith y Gwasanaethau Plant ledled y rhanbarth sydd hefyd wedi'i amlygu yn yr adroddiad. Aeth ymlaen i ddweud bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynd i gyfnod newydd gyda'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol 5 mlynedd yn ysgogi newid a thrawsnewid ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â Chronfa Gyfalaf Tai â Gofal 4 blynedd a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso 3 blynedd.

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried yr adroddiad a chodi'r prif bwyntiau canlynol:-

- Holwyd ynglŷn â'r prif flaenoriaethau y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio arnynt o 2022/2023 ymlaen. Dywedodd y Pennaeth Cydweithredu bod y Bwrdd Partneriaeth wedi bod yn canolbwyntio ar waith yn ymwneud â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ynghyd â'r ddwy gronfa gyfalaf arall a dderbyniwyd ac ar sefydlu rhaglen waith mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau partner. Mae'r asesiad anghenion y boblogaeth hefyd wedi cael ei adolygu ynghyd â'r adroddiad sefydlogrwydd y farchnad. O'r flwyddyn nesaf ymlaen bydd y Bwrdd Partneriaeth yn mynd i'r afael ag egwyddorion y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac yn adeiladu ar y rhaglen a roddwyd ar waith gan y Bwrdd ynghyd â'r Cynllun Ardal;
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag i ba raddau y mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei flaenoriaethau allweddol yn ystod 2021/2022, dywedodd y Pennaeth Cydweithredu bod y Bwrdd Partneriaeth wedi cyflawni'r blaenoriaethau a oedd wedi cael eu nodi yn y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Ymgwymerwyd â gwaith mewn perthynas â'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth a'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a chwblhawyd y ddwy flaenoriaeth ar amser. Roedd yr Aelodau'n dymuno cael eglurhad ynglŷn â'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol o ran y newidiadau cyfyngedig a'r llai o gynnydd a wnaed na'r hyn a ragwelwyd. Ymatebodd y Pennaeth Cydweithredu bod y dull a ddilynwyd o ran y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn wahanol i'r disgwyl a bod rhai arfau a dogfennau dadansoddol wedi cael eu cynhyrchu sydd angen eu dilysu'n a'u gwneud ar gael er mwyn cyflawni gwaith datblygu pellach. Rhaid sicrhau gwell cyswllt rhwng gwahanol elfennau'r rhaglen, gyda dull mwy rhanbarthol yn hytrach nag ardal ar gyfer cyflwyno modelau sydd wedi bod yn effeithiol;
- Cyfeiriwyd at yr argyfwng cenedlaethol mewn perthynas â recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol a holwyd ynglŷn â'r sefyllfa ar Ynys Môn. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol yn

broblem genedlaethol a bod anawsterau wrth hysbysebu llenwi swyddi yn y sector gofal;

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y rhaglen FEDRA' i a'r arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth ynghyd â'r crynodeb o'r rhaglen a oedd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Holwyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y rhaglen FEDRA' i gan nad ydi'r ystadegau yn yr adroddiad yn gadarnhaol iawn. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod y rhaglen FEDRA' i yn ddarpariaeth newydd a bod ymgysylltu â rhai defnyddwyr gwasanaetha yn gallu bod yn heriol. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn rhagweld y bydd cyfle i ddatblygu'r rhaglen ymhellach maes o law.

PENDERFYNWYD:-

- **Cadarnhau'r gwaith y mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud;**
- **Nodi cynnydd yn 2021-22 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu datblygu'n rhanbarthol drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.

6 BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - yr adroddiadau canlynol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:-

- **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2021/2022**
- **Adroddiad Cynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Ch1 2022/2023**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod yr Adroddiad Blynyddol yn amlygu cynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r Fargen Twf a'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill yn ystod y flwyddyn. Dywedodd bod yr Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd mewn perthynas â rhaglenni a phrosiectau'r Fargen Twf.

Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru grynodeb o waith y Bwrdd Uchelgais o ran cyflawni prosiectau'r Fargen Twf. Adroddodd ar amcanion y Bwrdd Uchelgais i greu 4,200 o swyddi newydd a chynhyrchu hyd at £2.4 biliwn o GVA ychwanegol. Adroddodd y Rheolwr y Rhaglen Tir ac Eiddo a Rheolwr y Rhaglen Ddigidol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar yr uchafbwyntiau o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022:-

Ebrill 2021 – Sicrhawyd cyllid o £500k o Gynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan Llywodraeth Cymru i helpu ffermwyr i ddatgarboneiddio;

Mai 2021 – Sicrhawyd grant o £200,000 o gynllun Adfer Gwyrdd OFGEM i ddatblygu technolegau carbon isel ar gyfer cartrefi megis pwyntiau gwefru cerbydau trydan a systemau gwresogi;

Mehefin 2021 – Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus i helpu i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cysylltedd symudol ar draws rhwydweithiau trafndiaeth y rhanbarth;

Gorffennaf 2021 – Trefnwyd ymweliadau gan Weinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;

Awst 2021 – Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon;

Medi 2021 - Lansiwyd Strategaeth Ynni ar gyfer y Gogledd gyda Llywodraeth Cymru, i drawsnewid y ffordd y defnyddir ynni ar draws y rhanbarth;

Hydref 2021 – Codwyd £2,300 ar gyfer Mind, gyda'r rhoddion yn cael eu rhannu ar draws canghennau'r Gogledd;

Tachwedd 2021 - Sicrhawyd grant o £387,600 drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol i gynnal astudiaethau dichonoldeb y System Ynni Lleol Blaengar;

Rhagfyr 2021 – Cymeradwywyd yr Achos Busnes Llawn cyntaf ar gyfer y Ganolfan Prosesu Signal Digidol ym Mhrifysgol Bangor

Ionawr 2022 –Diweddarwyd gwasanaethau band llydan mewn 300 safle drwy'r Cynllun Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol;

Chwefror 2022 – Rhoddwyd cefnogaeth i dri sefydliad i lansio systemau amaethyddol newydd a fydd yn helpu ffermwyr i ddatgarboneiddio;

Mawrth 2022 –Daeth Morlais, y prosiect llif llanw a redir gan Menter Môn, yn barod i ddechrau ar y gwaith adeiladu.

Adroddodd y Pennaeth Gweithrediadau ar y cynnydd ers mis Ebrill 2022 yn cynnwys yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y Ganolfan Peirianeg ac Optegol gyda Phrifysgol Glyndŵr a'r prosiect Ychydig % Olaf. Ym mis Gorffennaf 2022 lansiwyd y prosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Cyfeiriodd at benderfyniadau diweddar i dynnu'r prosiect Safle Strategol Allweddol a Fferm Sero Net Llysfasi yn ôl o'r Fargen Twf. Aeth ymlaen i ddweud bod Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru wedi cytuno i fenter ar y cyd arfaethedig gyda Llywodraeth Cymru ym Mryn Cegin, Bangor sydd yn brosiect cynllun twf.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at flaenoriaethau allweddol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu strategaeth i ddenu buddsoddiadau gan y sector preifat tuag at y Cynllun Twf. Holwyd p'un ai a fyddai'r drydedd bont dros y Fenai o fewn cylch gwaith y Bwrdd Uchelgais gan y byddai'n denu busnesau i'r Ynys a chreu swyddi. Ymatebodd y Pennaeth Gweithrediadau nad ydi'r drydedd bont dros y Fenai yn rhan o'r Cynllun Twf gan fod y Cynllun yn cynnwys 20 o brosiectau sydd wedi cael eu creu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth bod adeiladu trydedd bont dros y Fenai yn fater sydd wedi cael ei godi'n barhaus gyda Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd ac yn enwedig yn ddiweddar ers cau Pont y Borth gan fod traffig yn creu pwysau ychwanegol ar Borthladd Caergybi. Byddai'n costio £400m i adeiladu trydedd bont ar hyn o bryd ac fe allai peidio â chodi pont arall effeithio ar brosiectau'r Bwrdd Uchelgais. Dywedodd y Prif Weithredwr bod cyfrifoldeb statudol i greu cynllun trafndiaeth strategol ar gyfer y rhanbarth drwy'r Cydbwyllgor Corfforedig. Nododd bwysigrwydd cydnabod yr angen am drydedd bont fel blaenoriaeth yn y cynllun trafndiaeth strategol newydd ac i weithio gyda'r Cydbwyllgor Corfforedig i amlygu hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth;
- Mewn perthynas â'r Cydbwyllgor mynegwyd bod gan yr awdurdod ran i'w chwarae yn y broses o sefydlu Cydbwyllgor Corfforedig sydd yn broses gostus gydag awdurdodau lleol ledled Cymru'n wynebu sefyllfa ariannol heriol ar hyn o bryd. Holwyd ynglŷn ag anawsterau sefydlu darpariaeth o'r fath heb ddyblygu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill. Ymatebodd y Prif Weithredwr bod y Cydbwyllgor yn gorff newydd gyda chyfrifoldebau statudol a bod Cyfarwyddwr Portffolio cyfredol y Bwrdd Uchelgais wedi cael ei secondio i rôl Prif Weithredwr y Cydbwyllgor (rhan amser) a'i fod yn ystyried sut i gyfuno strwythurau, lleihau dyblygu a chadw costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r Cydbwyllgor cyn ised â phosib. Nododd bod tri o raglenni y mae angen mynd i'r afael â

hwy ar hyn o bryd, sef y Cynllun Trafnidiaeth Strategol, y Strategaeth Cynllunio Strategol ar gyfer y Rhanbarth a'r Rhaglen Datblygu Economaidd;

- Holwyd ynglŷn â statws y Ganolfan Ragoriaeth Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor a p'un ai a ydi'r prosiect yn llithro. Ymatebodd y Pennaeth Gweithrediadau bod y Prosiect Egin yn rhan o strategaeth ystadau ehangach ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda noddwyr y prosiect;
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad ydi'r adroddiad yn cyfeirio at nifer o gyfleoedd cyflogaeth sy'n debygol o gael eu creu yn sgil y prosiectau, yn enwedig ar Ynys Môn. Mynegwyd bod pobl ifanc angen sicrwydd a gweledigaeth y bydd cyfleoedd ar gael i'w galluogi i aros ar yr Ynys. Pwysleisiwyd y bod angen creu a chefnogi cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau yn ogystal. Holwyd a ydi'r Bwrdd Uchelgais yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cyfleoedd gwaith i bobl ifanc, yn enwedig o fewn y 5 ysgol uwchradd ar yr Ynys. Ymatebodd y Pennaeth Gweithrediadau bod y Bwrdd Uchelgais wedi gofyn am gyllid referniw tuag at y rhaglen sgiliau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ond nad oedd y cais wedi bod yn llwyddiannus gan mai dim ond cyllid cyfalaf sydd ar gael tuag at y Cynllun Twf. Fodd bynnag, nodwyd bod dau Swyddog wedi cael eu penodi gan y Bartneriaeth Sgiliau i weithio gyda Gyrfa Cymru, STEM Gogledd Cymru a gweithwyr eraill i sicrhau bod pobl ifanc mewn ysgolion lleol yn ymwybodol o gyfleoedd cyflogaeth. Aeth ymlaen i ddweud bod bwriad i wneud cais am adnoddau gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddatblygu'r rhaglen STEM yng Ngogledd Cymru ynghyd â rhaglenni sgiliau a dysgu o fewn yr ysgolion uwchradd. Mae cynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Sgiliau yn barod i fynychu'r cyfarfod hwn i drafod y gwaith a gyflawnwyd;
- Holwyd ynglŷn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r 3 prosiect yng Nghaergybi sef Morlais, adfer y Morglawdd ac ehangu'r Porthladd. Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau mai'r unig brosiect sydd yn weithredol ar hyn o bryd ydi'r prosiect Morlais ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i greu'r seilwaith sydd ei angen i fwrw 'mlaen â'r gwaith. Adroddodd y Rheolwr Tir ac Eiddo ar y prosiect i ehangu'r porthladd a dywedodd bod ymgynghorwyr Stena wedi drafftio achos busnes mewn perthynas ag ailfeddiannu tir y Porthladd. Mae rôl y Bwrdd Uchelgais wedi cynnwys helpu i sicrhau cyllid ar gyfer y Cynllun Twf, fodd bynnag mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i gyfyngu oherwydd y rheolau cymhorthdal. Nododd y gellir defnyddio adnoddau'r Cynllun Twf a'r prosiect Porth Caergybi i gefnogi'r prosiect i adnewyddu'r Morglawdd. Dywedodd ei fod yn rhagweld y bydd y gwaith ar y Morglawdd a'r estyniad i'r Porthladd yn dechrau yn 2023 ac y bydd y gwaith adeiladu'n para dwy flynedd;
- Cyfeiriwyd at yr argyfwng costau byw a holwyd ynglŷn â'r effaith ar y prosiectau a'r Cynllun Twf. Ymatebodd y Pennaeth Gweithrediadau bod yr argyfwng costau byw yn achosi her i'r Bwrdd Uchelgais gyda chostau chwyddiant ac adeiladu 30% i 40% yn uwch na'r disgwyl ac felly mae heriau sylweddol ar gyfer y prosiectau mwyaf aeddfed sy'n barod i fynd rhagddynt. Mae'n debygol na fydd rhai o brosiectau'r Cynllun Twf yn mynd rhagddynt bellach.

PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/2022 a nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 1 – 2022/2023.

GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.

7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgrwtini a oedd yn nodi Rhaglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2022/23 i'w ystyried.

PENDERFYNWYD:-

- **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r blaen raglen waith ar gyfer 2022/23**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

**CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	17 Ionawr 2023
Pwnc:	Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol Tachwedd 2021/22
Pwrpas yr Adroddiad:	Cyflwyno adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol, sy'n disgrifio'r cynnydd a wnaed a sut mae diogelu wedi'i wreiddio o fewn pob agwedd ar wasanaethau, swyddogaethau, a dyletswyddau'r cyngor. Rhoi gwybodaeth hanfodol ac allweddol i'r Pwyllgor Sgriwtini er mwyn gallu craffu'n effeithiol ar arferion diogelu'r Cyngor.
Cadeirydd Sgriwtini:	Cyng Dylan Rees
Aelod(au) Portfolio:	Mae'r mater hwn yn berthnasol i bob portffolio
Pennaeth Gwasanaeth:	Mae hwn yn fater i bob Pennaeth Gwasanaeth. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno yn enw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn unol â'r cyfrifoldeb statudol a'r atebolrwydd dros faterion ddiogelu sy'n rhan o'r rôl honno.
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Anwen Huws (Rheolwr Gwasanaeth) 01248 751811 AnwenMHughes@ynysmon.llyw.cym
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini graffu ar effeithiolrwydd y:

- A1.** trefniadau diogelu corfforaethol o ran pa mor dda y maen nhw wedi'u gwreiddio o fewn pob agwedd ar wasanaethau, swyddogaethau a dyletswyddau'r cyngor.
A2. cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer trefniadau diogelu corfforaethol.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae'r Cyngor o'r farn bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed.

Mae gan gynghorau rôl hanfodol, statudol o ran diogelu plant ac oedolion a allai fod mewn perygl a hyrwyddo eu lles. Gall diogelu ond fod yn wirioneddol effeithiol os yw'n cael ei wreiddio ar draws yr holl Wasanaethau a Thimau o fewn Cyngor, ar lefel 'calonnau a meddyliau'.

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

3.1 Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

3.4 Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

- I ba raddau mae'r trefniadau llywodraethu'n effeithiol?
- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y cynllun gwaith?
- Pa adnoddau sydd yn eu lle ar gyfer cyflawni'r cynllun gwaith?
- Pa dystiolaeth sydd i gadarnhau fod cyfleoedd clir i staff ac Aelodau mewn perthynas â'r disgwyliadau a roddir arnynt i ymateb yn briodol i bryderon y cânt wybod amdanynt?
- I ba raddau y mae dystiolaeth bod gweithdrefnau corfforaethol cadarn yn eu lle a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson?
- Sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod ymarfer diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod pob darparwr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor yn arfer eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol?

5 – Cefndir / Cyd-destun

Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Nodir yr egwyddor hon mewn deddfwriaeth, canllawiau statudol a Chod Ymarfer yng Nghymru, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae Diogelu Corfforaethol o fewn Cynghorau yn disgrifio'r ymrwymiad polisi y mae Cyngor yn ei wneud a'r trefniadau sydd ar waith, er mwyn sicrhau bod ei holl wasanaethau, staff, gwirfoddolwyr ac Aelodau Etholedig yn chwarae eu rhan wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a allai fod mewn perygl o niwed.

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig am newid sydd yn effeithio yn uniongyrchol ar unigolion ar yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig

6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Nid oes angen penderfyniad na chynnig am newid sydd yn effeithio yn uniongyrchol ar unigolion ar yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n profi anfantais economaidd – gymdeithasol yn eu bywydau.

6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Nid oes angen penderfyniad na chynnig am newid sydd yn effeithio yn uniongyrchol ar unigolion ar yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

7 – Goblygiadau Ariannol

Nid oes angen penderfyniad na chynnig am newid yn yr adroddiad yma sydd yn gofyn am adnoddau ychwanegol i'r hyn sydd eisoes ar gael sef amser swyddogion

8 – Atodiadau

Atodiad 1 - Cylch Gorchwyl Bwrdd Diogelu Corfforaethol

Atodiad 2 - Rhestr Termau a Gwybodaeth Partneriaethau

Atodiad 3 – Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol (Tachwedd 2022)

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol

- 1 Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol
 - 1.1 Mae'r strwythur llywodraethu yn sicrhau bod y dyletswyddau cyfreithiol yn cael eu cyflawni, a dull Ynys Môn o ddiogelu'n cael ei ddarparu. Mae'n hybu diwylliant ledled y Cyngor o ymwybyddiaeth diogelu ac arweinyddiaeth. Y Bwrdd Diogelu Corfforaethol sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol ac am sicrhau effeithiolrwydd y trefniadau diogelu. Mae'n cyfarfod yn chwarterol fel rhan o'r Tîm Rheoli Corfforaethol: gan sicrhau bod pob Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth yn cymryd rhan. Y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol, sydd ag aelodaeth traws-sefydliad, sy'n gyfrifol am y gyflwyno'r cyfeiriad strategol. (Atodiad 1)
 - 1.2 Mae gan bob gwasanaeth Hyrwyddwr Diogelu penodol: sy'n gweithredu fel ffynhonnell cyngor ar yr holl faterion diogelu i staff eraill o fewn y gwasanaeth ac yn sicrhau bod y drefn o gydymffurfio â'r Cynllun Gweithredu a Pholisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'w Tîm Rheoli a'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol.
 - 1.3 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth nodi eu hamcanion Diogelu yn eu Cynllun Cyflawni Gwasanaethau blynyddol: ac i adolygu'r cynnydd a wneir i fodloni'r amcanion hynny bob chwarter ac yn flynyddol o fewn proses Her Gwasanaeth. Ar ran Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r Rheolwr Perfformiad Corfforaethol yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyson ar draws y sefydliad.
 - 1.4 Lanswyd y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig drwy'r Porth Polisi ym mis Mai 2022: gyda disgwyliad bod staff yn darllen ac yn derbyn y polisi. Mae lefelau cydymffurfio yn cael eu mesur a'u hadrodd i'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth unigol: ac i'r Tîm Arweinyddiaeth. Nododd yr adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ym mis Tachwedd 2022 fod 94% o'r rhai oedd disgwyl iddynt fod wedi derbyn y polisi wedi gwneud hynny.
 - 1.5 Er mwyn i ddiogelu corfforaethol fod yn llwyddiannus, mae angen cyd berchnogaeth o ar draws rhwydweithiau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol. Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cyllid ac amser swyddogion i sawl partneriaeth strategol allweddol. Mae Atodiad 2 yn darparu mwy o wybodaeth.
- 2 Gweithlu
 - 2.1 Rhaid i Awdurdod Lleol sicrhau bod pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o safbwynt diogelu a'u bod yn ymwybodol bod hyn yn cynnwys adrodd am bryderon ynghylch plant ac oedolion y maent yn dod ar eu traws.
 - 2.2 Mae gwreiddio dull diogelu corfforaethol a diwylliant i ddatblygu'r gweithlu yn cynnwys sicrhau bod gan yr Awdurdod Lleol bolisïau ac arferion perthnasol mewn perthynas â:
 - 2.2.1 Dull recriwtio mwy diogel ar draws y cyngor, gan hysbysebu'n agored y bydd angen gwiriadau DBS ar staff ar gyfer swyddi penodol i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ac ail-wirio'r statws DBS bob tair blynedd. Gwiriadau cyflogaeth cadarn a cheisiadau am eirida.
 - 2.2.2 Mae pob disgrifiad swydd yn cynnwys gofynion i gydymffurfio â'r bolisïau a'r gweithdrefnau diogelu perthnasol.

- 2.2.3 Caiff diogelu ei gynnwys fel rhan o broses gynefino'r Awdurdod.
- 2.2.4 Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol: mae'n ofynnol i bob aelod o staff gael hyfforddiant gorfodol diogelu plant ac oedolion. Darperir hyfforddiant arbenigol hefyd yn unol ag anghenion y gweithlu a nodwyd.
- 2.2.5 Safle Diogelu ar Monitor: darparu adnodd gwerthfawr i swyddogion ar draws y sefydliad ac mae'n rhywbeth y gellir ei ddatblygu dros amser.
- 2.2.6 Gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn roi cyfle da i hyrwyddo Diogelu Corfforaethol ymhlith staff.
- 2.3 Mae'r Cynllun Gweithredu yn atodiad 3 yn dangos, ar y cyfan, fod lefelau da o gydymffurfio â hyfforddiant diogelu e-ddysgu gorfodol. Yr her wrth symud ymlaen:-
- 2.3.1 Sicrhau bod yr hyfforddiant e-ddysgu yn hygyrch i wasanaethau sydd â gweithlu gwasgaredig heb fynediad i e-bost y Cyngor neu sydd angen cymorth o ran cynhwysiant digidol.
- 2.3.2 Dylai gwasanaethau sicrhau bod cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol yn rhan gorfodol o'r broses gynefino i staff sydd yn newydd i'r Awdurdod. (Gweithredu allweddol, a adlewyrchir yn y cynllun gweithredu)
- 2.4 Mae Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol wedi'i strwythuro'n grwpiau, gan ddiffinio'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gwahanol rolau staff, swyddogion gweithredol neu arweinyddiaeth. Cam allweddol, a adlewyrchir yn y cynllun gweithredu, yw mapio ein gweithlu i'r gwahanol grwpiau a chynllunio'r dasg o ddarparu hyfforddiant. Dyma gyfle i fapio gofynion hyfforddi'r gweithlu o ran Prevent a Chaethwasiaeth Fodern ar yr un pryd.
- 2.5 Sefydlodd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, sy'n cynnwys chwe grŵp hyfforddi. Mae pob proffesiwn gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i un o'r grwpiau hyn ac mae'n ofynnol bod pob aelod o weithlu'r Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau sicrhau bod eu staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 1. Y gyfradd gydymffurfio yw 80% sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru o 81%. Wrth symud ymlaen mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad. (Gweithredu allweddol, a adlewyrchir yn y cynllun gweithredu). Mae gennym ddigon o unigolion wedi'u hyfforddi fel hyfforddwyr/pemcampwyr Gofyn a Gweithredu, sef Lefel 3 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol. Maen nhw wedi darparu i 444 o weithwyr y cyngor dros 20 sesiwn a 198 aelod o staff ysgol dros 11 sesiwn. Wrth symud ymlaen mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i adnabod y swyddogion hynny sydd mewn sefyllfa i Holi a Gweithredu fel eu bod yn gallu cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. (Gweithredu allweddol, a adlewyrchir yn y cynllun gweithredu).
- 3 Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol
- 3.1 Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru sy'n nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu ynghylch y rhai hynny y mae eu gwaith, naill ai mewn swydd

gyflogedig neu wirfoddol, yn golygu eu bod yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sydd mewn perygl.

- 3.1.1 Rhwng Tachwedd 2021 a Thachwedd 2022 cafodd 15 honiad eu gwneud yn erbyn gweithwyr/gwirfoddolwyr cyngor sy'n gweithio gyda phlant: un ohonynt yn honiad o gam-drin hanesyddol. Roedd y rhan fwyaf o'r honiadau a wnaed yn erbyn staff ysgol neu ofalwyr maeth. Roedd eraill yn cael eu cyflogi mewn canolfannau hamdden neu fel glanhawr. O'r rhain cafodd 5 o'r pryderon eu profi: roedd 6 heb eu profi: roedd 3 yn ddi-sail ac mae 1 yn parhau.
 - 3.1.2 Am yr un cyfnod roedd 5 honiad yn erbyn gweithwyr/gwirfoddolwyr cyngor sy'n gweithio gydag oedolion ag anghenion gofal a chymorth. O'r rhain cafodd 2 honiad eu profi: mae 2 arall yn parhau ac nid oedd un arall yn cyrraedd y trothwy i'w hystyried o dan y trefniadau hyn.
 - 3.1.3 Am yr un cyfnod roedd 20 honiad yn erbyn gweithwyr/gwirfoddolwyr mewn gwasanaethau sydd wedi eu comisiynu sy'n gweithio gydag oedolion ag anghenion gofal a chymorth. O'r rhain cafodd 9 eu profi: roedd 3 heb eu profi: nid oedd 4 yn cyrraedd y trothwy i'w hystyried o dan y trefniadau hyn: mae 4 yn parhau a chyfeiriwyd 1 arall at yr awdurdod lleol lle'r oedd y gweithle wedi'i leoli.
 - 3.1.4 Mae'r honiadau'n rhychwantu ystod y diffiniad trothwy - gan gynnwys achosi niwed i unigolion, cyflawni troseddau a materion ehangach o addasrwydd i weithio gyda phlant a/neu oedolion sydd mewn perygl.
 - 3.1.5 Hysbysiadau gwahardd DBS ac atgyfeiriadau corff proffesiynol yn cael eu gwneud mewn amgylchiadau priodol.
- 3.2 Ymrwymodd yr Awdurdod Lleol i'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi: gyda'r nod o sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddiddymu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol. Adolygwyd a chyhoeddwyd datganiad yr Awdurdod Lleol ar sut y gweithredodd ar yr ymrwymadau yn y Cod Ymarfer. Un cam allweddol, a adlewyrchir yn y cynllun gweithredu, yw darparu hyfforddiant i swyddogion sy'n ymwneud â chaffael a chontractio mewn perthynas â chaffael moesegol yn y cadwyni cyflenwi.
- 3.3 Nid yw atgyfeiriadau a dderbyniwyd mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern yn uchel o ran nifer. Mae llwybrau ymateb yn eu lle, a buom yn rhan allweddol o ddatblygu Llwybr Atgyfeirio Aml-Asiantaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a lansiodd ym mis Tachwedd 2022 gan y Bwrdd Breguster a Cham-fanteisio. Bydd y rhain yn cael eu lansio o fewn yr Awdurdod Lleol yn y flwyddyn newydd. (Cam allweddol - adlewyrchir yn y cynllun gweithredu)
- 3.4 Mae'r dudalen Diogelwch Cymunedol ar wefan y Cyngor, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnig cyngor o ansawdd uchel am y gwasanaethau a ddarperir i bobl sy'n destun cam-drin domestig. Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried sefydlu Hafan Ddiogel yn ei safleoedd cyhoeddus: fel y gall dioddefwyr cam-drin domestig ofyn am gymorth, unwaith heb i eraill ddirnad hynny trwy gael mynediad i fan diogel lle mae ffôn ar gael a chyfeirlyfr o rifau/gwasanaethau cyswllt defnyddiol.

- 3.5 Mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth 'Un Drws Ffrynt'. Dyma dull aml-asiantaeth o nodi a rhoi sgôr risg i atgyfeiriadau a dderbyniwyd a fforwm i werthuso a datblygu gwasanaethau ynglŷn â cham-drin domestig yn dibynnu ar risg ac anghenion.
- 3.6 Gorchwyl Cyflawnwyr Cam-drin Domestig ADAPT. Yn fyr, dull aml-asiantaeth o ymdrin â'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig yw ADAPT. Rydym yn cymryd rhan mewn cyfarfod bob mis i drafod carfan o gyflawnwyr cam-drin domestig i gyflawni amcanion diogelu cyffredinol
- Lleihau ail-droseddu ymysg rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig
 - Diogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl o gam-drin domestig
 - Torri cylch cam-drin y cyflawnwr

Y dull allweddol o gyrraedd y nod hwn yw drwy newid neu amharu ar ymddygiad troseddwr, drwy ddefnyddio dulliau aml-asiantaeth.

- 3.7 Rydym hefyd yn cymryd rhan yng Nghynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC) sy'n gyfarfodydd aml-asiantaeth lleol rheolaidd sy'n trafod dioddefwyr sydd mewn risg uchel o niwed difrifol oherwydd cam-drin domestig. Gyda'i gilydd, mae'r Gynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer pob dioddefwr, er mwyn cynnig cefnogaeth briodol iddynt a lliniaru'r risgiau dan sylw. O fewn y cyfnod adrodd trafodwyd 208 o achosion mewn MARAC wythnosol gyda 11 yn cael eu trafod yn y MARAC Misol (lle ystyrir fod y risg yn uchel).
- 3.8 Nod Trefniadau Aml-Asiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yw diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr troseddau blaenorol, rhag niwed difrifol gan droseddwr rhywiol a threisgar. Maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrrff eraill sy'n delio â throseddwr gydweithio. Mae gan yr Awdurdod Lleol "ddyletswydd i gydweithredu" yn y dasg hon, a gweithio ar agweddau o fywyd troseddwr (e.e., tai, gofal cymdeithasol). Dros y pedwar chwarter diwethaf (CH1 a 2 2022/23 a CH3 a 4 2021/22) fe wnaethom fynychu'r holl gyfarfodydd gofynnol – a oedd yn cyfateb i 29 o gyfarfodydd mewn perthynas â throseddwr Categori 2 sy'n droseddwr treisgar yn bennaf a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy o garchar neu orchymyn ysbyty: a 2 gyfarfod mewn perthynas â throseddwr Categori 3 - troseddwr nad ydynt yn gymwys o dan Gategoriâu 1 neu 2 ond sydd ar hyn o bryd yn peri risg o niwed difrifol.
- 3.9 Mae Prevent a Channel wedi'u cynnwys, fel swyddogaethau statudol awdurdodau lleol (Adran 36 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch), o fewn cyfansoddiad yr awdurdod lleol. Mae rhestr o Swyddogion Statudol a Phriodol yn nodi pwy sy'n arwain ar faterion Prevent (Dirprwy Brif Weithredwr) a Channel (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol): a'u cynnwys fel rhan o Bortffolio Aelod Diogelwch Cymunedol. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd angenrheidiol yn ei le. Rydym yn cwblhau Hunanasesiad Blynyddol y Swyddfa Gartref sy'n llywio ein camau gwella.
- 3.10 Yn ystod 2021, doedd dim cyfeiriadau Prevent o Ynys Môn. Er ein bod yn ardal risg isel, nid yw'r Awdurdod Lleol wedi diystyru'r angen i sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Prevent, a gallent adnabod yr arwyddion pan fo unigolyn, neu mewn perygl o gael ei radcaleiddio. Mae e-ddysgu gorfodol, a hyfforddiant uniongyrchol wedi'i ddarparu. Mae'r staff yn gallu defnyddio

gwybodaeth am Prevent a Channel ar yr adran Diogelu Monitor: gan gynnwys mynediad at ffynonellau cyngor a'r Canllawiau Ymarfer a Llwybrau Cyfeirio perthnasol. Mae Grŵp Prevent Gogledd Cymru yn darparu fforwm lle gall partneriaid statudol a'r Awdurdod Lleol drafod sut i godi ymwybyddiaeth a hyder ar draws asiantaethau a sicrhau bod pryderon perthnasol yn cael eu cyfeirio.

- 3.11 Mae trefniadau yn eu lle i fodloni'r gofyniad statudol i gynnal paneli Channel sy'n gyfarfodydd amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar roi cymorth cynnar i unigolion sydd wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl o gael eu radcaleiddio. Ni chafodd unrhyw achosion eu derbyn i'r broses Channel o fewn Ynys Môn yn ystod y cyfnod adrodd.
- 3.12 Mae Cynllun Gweithredu Prevent Ynys Môn yn ei le, sy'n cofnodi ein hymateb i'r dyletswyddau statudol a'r lefelau risg a nodwyd yn y Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth ac asesiad o'r sefyllfa. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu'n gyson a'i adrodd ym Mhartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fodloni gofynion cenedlaethol a rhanbarthol newydd sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â digwyddiadau terfysgol yn y DU, Ewrop a thu hwnt. Y camau allweddol yw: -
- 3.12.1 Codi ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad i sicrhau bod gan staff rheng flaen, ddealltwriaeth dda o Prevent, eu bod yn gallu adnabod unigolion a allai fod mewn perygl, yn ymwybodol o raglenni sydd ar gael i ddelio â'r mater hwn, ac yn gwybod pryd i gyfeirio unigolion at asiantaethau eraill.
- 3.12.2 Ymgorffori'r Polisi Dim Llwyfan i rybuddio lleoliadau o'r risg pan fo lleoliadau'n cael eu defnyddio gan grwpiau/siaradwyr dylanwadol y gwyddys eu bod yn radcaleiddio eraill.
- 3.12.3 Ymgysylltu â mudiadau a grwpiau o'r sector gwirfoddol a chymunedol i godi ymwybyddiaeth o Prevent.
- 3.12.4 Ni yw Awdurdod arweiniol prosiect llythrennedd cyfryngau rhanbarthol y Gronfa Atal Radcaleiddio gyda'r nod o sicrhau bod pobl ifanc 14-21 oed yn cael hyfforddiant i feithrin gwydnwch emosiynol a sgiliau meddwl beirniadol, gan addysgu cyfranogwyr sut i aros yn ddiogel rhag ideolegau eithafol.

4 Caffael

- 4.1 Mae ymarfer effeithiol mewn Cynghorau'n cynnwys gosod safonau clir ac effeithiol a gofynion cydymffurfio cadarn ar gyfer contractau gyda phob darparwr allanol sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd. Wrth gomisiynu gwasanaethau, bydd arferion da o ran caffael, yn golygu bod Cynghorau'n rhoi ystyriaeth ofalus ynglŷn â pha fesurau diogelu sydd eu hangen ar contractwyr neu ddarparwyr gwasanaethau sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant, pobl ifanc neu oedolion sydd mewn perygl. Rydym wedi cyhoeddi ein Nodyn Cyngor ar Ddiogelu a Chaffael a Rheoli Contractau – sy'n helpu gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan ein partneriaid yn ddiogel ac yn hyrwyddo diogelu, Mae'r Gwasanaethau yn gyfrifol am eu trefniadau Caffael a Rheoli Contract eu hunain ac mae'r penderfyniad ar sut i gymhwyso darpariaethau'r Nodyn Cyngor yn gorwedd gyda phob gwasanaeth unigol.

5 Dysgu, Sicrhau Ansawdd a Sicrhau Gwell Cydymffurfio

- 5.1 Rhaid i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol sicrhau bod y gwasanaethau'n gweithredu'r polisïau diogelu yn gyson, yn ogystal â chynorthwyo'r gwasanaethau hynny lle bo angen. Ni all y gwasanaethau ddibynnu ar brosesau sicrwydd allanol yn unig. Cynhaliodd y gwasanaethau archwiliad o'u trefniadau hyfforddi.
- 5.2 Cynhaliodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru Arolygiad o Wasanaethau Dysgu Awdurdodau Lleol Ynys Môn ym mis Mehefin 2022. Daeth i'r casgliad fod gwasanaeth yn arddel diwylliant cryf o ddiogelu ac yn gosod disgwyliadau cadarn ac uchel ar draws y gweithlu. Nododd yr adroddiad gryfderau mewn perthnasau gwaith effeithiol, mewn trefniadau cyflogaeth diogel a threfniadau sy'n sicrhau bod gan yr awdurdod wybodaeth gyfredol am brosesau diogelu mewn ysgolion. Nodwyd bod y strategaeth gorfforaethol o ddarparu hyfforddiant i wella dealltwriaeth ymarferwyr o effaith trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar gyflawniad a lles disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safon y ddarpariaeth. Cryfder arall oedd y 'Hyrwyddwyr Diogelu' ym mhob dalgylch: gan sicrhau effaith gadarnhaol ar ansawdd diogelu plant a gwaith diogelu.
- 5.3 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru Adolygiad Gwerthuso Perfformiad yn ystod y flwyddyn. Daethant i'r casgliad bod yr Awdurdod Lleol yn nodi'n glir bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.
- 5.4 Doedd dim Adolygiadau Ymarfer Plant nac Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn ymwneud ag Ynys Môn a gomisiynwyd gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn. Cynhaliodd y bwrdd Fforwm Proffesiynol Aml-Asiantaeth mewn perthynas ag achos o Ynys Môn, a oedd yn pontio gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd. Rydym wedi rhannu'r dysgu gyda staff rheng flaen. Mae trefniadau Bwrdd Diogelu Corfforaethol yr Awdurdod Lleol yn sicrhau y gellir gweithredu camau a dysgu ar draws gwasanaethau.
- 5.5 Ar hyn o bryd rydym yn ymwneud â thri Adolygiad Dynladdiad Domestig. Y pwrpas yw sefydlu pa wersi sydd i'w dysgu, ynglŷn â'r ffordd y mae staff proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio'n unigol a gyda'i gilydd, i ddiogelu dioddefwyr: i gymhwyso'r gwersi hyn i wasanaethau, gan gynnwys diweddarau polisïau a gweithdrefnau os yw'n briodol ac i weithio tuag at atal achosion o ddynladdiad domestig yn y dyfodol a gwella gwasanaethau i bob dioddefwr a'u teuluoedd trwy wella gwaith partneriaeth fewnol ac allanol. Mae'r prosesau hyn yn parhau.

6 Y nod wrth symud ymlaen

- 6.1 Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd i sicrhau trosolwg o'r agenda ddiogelu ehangach a chryfhau'r trefniadau ar gyfer herio a dwyn i gyfrif. Mae'r meysydd blaenoriaeth wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol a Chynllun Cyflawni Prevent.

Atodiad 1

CYLCH GORCHWYL

BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL A

BWRDD CYFLAWNI DIOGELU CORFFORAETHOL

Cymeradwywyd Hydref 2022

CYLCH GORCHWYL – BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn angen rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cyflawni'r dyletswyddau diogelu yn unol â gofynion cyfreithlon, Polisiâu'r Cyngor a Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn ofynnol i bob asiantaeth roi trefniadau mewnol ar waith i sicrhau yr ymdrinnir â'r agenda atal terfysgaeth, atal eithafiaeth, materion caethwasiaeth a materion sy'n codi o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gywir.
- 1.2 Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi cyfrifoldebau penodol ar gyfer diogelu. Mae rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn tynnu sylw at yr angen i'r Cyfarwyddwr feddu ar drosolwg o broblemau diogelu ac i adrodd yn rheolaidd i aelodau ynghylch trefniadau diogelu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion o fewn yr awdurdod.

2. CYLCH GORCHWYL Y BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL

- 2.1. Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn gweithredu ar lefel strategol er mwyn rhoi sicrwydd i Aelodau a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn risg, bod trefniadau a gweithdrefnau priodol ar waith ar lefel gorfforaethol i sicrhau bod y gwaith o ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn bodloni gofynion statudol.
- 2.2 Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cael ei ystyried yn rhan o'r Penaethiaid ar gylch penodol. Oherwydd hyn, bydd y gwaith adrodd yn cyrraedd lefel uchel iawn ac wedi'i gyfyngu i eithriadau a phrif benderfyniadau sydd angen ymrwymiad pob gwasanaeth.
- 2.3 Bydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn gyfrifol am: -

2.3.1	Cymeradwyo'r Polisi Diogelu Corfforaethol a chynllun gweithredu diogelu corfforaethol blynyddol.
2.3.2	Derbyn adroddiadau cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol bob chwe mis: gan gynnwys unrhyw faterion sy'n gofyn am gamau gweithredu cywirol ar lefel strategol sy'n cael eu hadrodd ar sail chwarterol.
2.3.3	Sicrhau bod gweithdrefnau corfforaethol effeithiol a gweithdrefnau ar waith o fewn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswyddau diogelu'n effeithiol e.e. arwain gweithgarwch hunansicrhau: adolygiadau gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i unrhyw fylchau mewn polisiâu a chanllawiau corfforaethol, a sicrhau yr ymdrinnir â nhw,

	gan weithio'n briodol gyda'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (RSCB) a'r Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (RSAB)
2.3.4	Sicrhau bod gan bob Gwasanaeth system rheoli perfformiad ar waith i ddangos eu bod nhw'n cyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n diogelu plant ac oedolion.
2.3.5	Sicrhau y cymerir camau mewn perthynas â'r gwersi a ddysgwyd, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau ar arfer plant ac oedolion ac o adolygiadau sylweddol eraill (mewnol ac allanol).
2.3.6	Cynnal agwedd corfforaethol o ran cyfathrebu a chydymffurfio o fewn y sefydliad
2.3.7	Cefnogi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Statudol o fewn y Cyngor, gan gynnwys derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol – bydd y Prif Weithredwr yn cadeirio'r eitem hon
2.3.8	Rhoi sicrwydd i Aelodau Arweiniol bod gweithdrefnau'r Cyngor yn rymus o ran materion diogelu plant ac oedolion;
2.3.9	Derbyn ac ystyried adroddiadau allweddol ar sail eithriad: sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith pan fo hynny'n briodol

3. CADEIRYDD

- 3.1. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadeirio cyfarfod y Penaethiaid wrth eistedd ar y Bwrdd Diogelu Corfforaethol

4. AMLDER CYFARFODYDD

- 4.1 Cynhelir cyfarfodydd yn y Penaethiaid o leiaf bob 12 wythnos

5. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

- 5.1 Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn atebol i'r Pwyllgor Gwaith
- 5.2 Cyflwynir adroddiad yn flynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol drwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- 5.3 Bydd y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn atebol i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

6. AELODAETH

Teitl
Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol/Pennaeth Gwasanaethau Plant (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd
Pennaeth Trawsnewid a Phroffesiwn – Adnoddau Dynol
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff a Gwasanaethau Eiddo
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog S151

Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol

Cyngor Sir Ynys Môn

Cylch Gorchwyl

1. Diben:

Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn gyfrifol am osod cyfarwyddyd a derbyn adroddiadau o lefel uchel.

Mae'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn gyfrifol am gyflawni'r cyfarwyddyd hwnnw. Bydd hyn yn cynnwys awdurdodaeth gwneud penderfyniadau ynghylch camau er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol (gan gynnwys Atal (Prevent) a Chaethwasiaeth) ac adrodd ar gynnydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

Bydd y Cyngor yn dosbarthu ei gyfrifoldebau diogelu statudol drwy Swyddogion Diogelu Dynodedig ym mhob gwasanaeth y Cyngor. Maen nhw'n cynrychioli eu gwasanaeth ar y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol ac yn gweithredu fel cwndid ar gyfer rhannu gwybodaeth ynghylch diogelu gan y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol. Gofynnir bod ganddynt awdurdod digonol i wneud penderfyniad ar ran eu gwasanaeth wrth ddirprwyo'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol.

2. Cyfrifoldeb

2.1	Hysbysu gofynion diogelu allweddol mewn perthynas â phlant ac oedolion mewn risg ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.
2.2	Adrodd ar gynnydd pob gwasanaeth o ran cyflawni eu camau/targedau diogelu allweddol. Derbyn adroddiadau gan bob gwasanaeth yn ymwneud â'u trefniadau diogelu, a hyrwyddo arfer da o fewn yr holl wasanaethau mewn perthynas â materion diogelu

2.3	Sefydlu, cydlynnu a sicrhau y gweithredir y camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol, ac y gwneir cynnydd â nhw.
2.4	Hyrwyddo arfer diogelu effeithiol ar draws y gwasanaeth, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth, casglu data ac ymwybyddiaeth gweithredol o'r rheng flaen.
2.5	Adnabod unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu / gwella mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol, a chynnig rhaglenni gwaith i ymateb i'r rhain, gan gynnwys meysydd lle mae angen gweithio gyda'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol
2.6	Datblygu cynlluniau gweithredu i ymateb i argymhellion sy'n deillio o adolygiadau mewnol (ac allanol) gan roi ystyriaeth i ddiogelu er mwyn gwella a chryfhau trefniadau diogelu ar draws yr holl wasanaethau.
2.7	Gwella ymwybyddiaeth holl staff y Cyngor, a'r holl aelodau etholedig, o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a materion / datblygiadau allweddol sy'n ymwneud â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn risg.
2.8	Cefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant diogelu perthnasol ac effeithlon yn unol â'r fframweithiau perthnasol.
2.9	Cyflwyno Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blyneddol sy'n trafod perfformiad yr holl wasanaethau mewn perthynas â'r cynllun gweithredu/gofynion.

Aelodaeth:

Swyddogion Diogelu Corfforaethol Dynodedig	
Gwasanaethau Oedolion	Rachel Williams
Gwasanaethau Plant	Llŷr ap Rhisiart
Gwasanaethau Democraidaidd a Busnes y Cyngor	Rhys Hughes
Gwasanaethau Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd	Nonn G Hughes
Addysg a Dysgu Gydol Oes	Gwyneth Môn Hughes

Cyllid	Sioned Rowlands
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Gwyndaf Parry
Tai	Arwel Jones Llinos Williams
Trawsnewid ac Adnoddau Dynol gan gynnwys Hyfforddiant a Datblygu Gweithlu	Miriam Williams /Caroline Williams / Non Meleri Hughes
Cymorth Diogelu Arbenigol	
Rheolwr y Gwasanaeth Ansawdd a Gwella	Anwen Huws
Rheolwr Oedolion mewn Risg	Ann Postle
Lisa Capper Swyddog Arweiniol Diogelu Annibynnol ar gyfer Diogelu Plant a Chadeirydd y Panel Sianel	Lisa Capper
Rheolwr Darparu Diogelu Cymunedol	Daron Owens
Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol	Tony Jones

Bydd unigolion eraill gydag arbenigedd/cyfraniad perthnasol yn cael eu cyfethol fel sy'n ofynnol.

Atebolrwydd:

Bydd y Swyddogion Diogelu Dynodedig yn atebol i'w Penaethiaid Gwasanaeth o ran y trefniadau diogelu sy'n bodoli o fewn eu gwasanaeth.

Mae'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn atebol i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

Bydd rôl yr aelodau'n cynnwys craffu ar effaith gwaith y Byrddau Diogelu Corfforaethol, ac felly ni fyddant yn eistedd fel aelodau ar y byrddau hyn.

Amllder Cyfarfodydd:

Bob 6 wythnos – gydag o leiaf un yn cael ei gynnal ar uwanith o flaen y Bwrdd Diogelu Corfforaethol

Grŵp Gorchwyl:

Pennu tasg benodol er mwyn canolbwyntio ar feysydd polisi a gweithdrefnau penodol.

Cadeirio a Gweinyddu

Bydd y Cadeirydd yn cael ei benodi gan y Swyddogion Dynodedig yn seiliedig ar ddaliadaeth 3 blynedd.

Rheoli busnes [h.y. llunio amserlen o gyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol].

RHAGLEN

1	Ymddiheuriadau	Apologies
2	Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd .. a. Cywirdeb b. Materion yn codi	Minutes from meeting held on a. Accuracy b. Matters arising
3.	Penderfyniadau'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol	Decisions from the Corporate Safeguarding Board
4	Crynodeb gan bob gwasanaeth o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn erbyn y cynllun gweithredu	Summary by each service of what they have achieved against the Action Plan
5	Diweddarau'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol	Update the Corporate Safeguarding Action Plan
6	Materion Llywodraethu a Sicrhau Ansawdd	Governance and Assurance Matters
7	Materion Hyfforddiant	Training Matters
8	Derbyn adroddiadau:-	Any reports to be tabled:-
9	Materion Penodol:-	Specific Matters:-
10	Unrhyw Fater Arall	Any Other Business
11	Negeseuon i'w cyfathrebu	Message to be communicated
12	Cyfarfod nesaf	Next Meeting

Atodiad 2

Term/Bwrdd	Pwrpas/Esboniad	Rhanbarthol/Is rhanbarthol/Lleol
Strategaeth Contest	<p>Dyma strategaeth gwrthderfysgaeth gyffredinol Llywodraeth y DU a drefnir o amgylch pedwar ffrwd gwaith, pob un ohonynt yn cynnwys nifer o amcanion allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Erlid: i stopio ymosodiadau terfysgol; • Atal: i stopio pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth; • Amddiffyn: i gryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol; a • Paratoi: i leihau effaith ymosodiad terfysgol. 	
Dyletswydd Prevent.	<p>Mae'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 (a26) yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau penodol sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae hyn yn rhan o'r Strategaeth Contest cyffredinol. Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd fe ddylai'r awdurdod lleol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu neu ddefnyddio mecanweithiau presennol ar gyfer deall y risg o radicleiddio • Sicrhau bod staff yn deall y risg ac yn meithrin y gallu i ddelio â'r risg • Cyfathrebu a hyrwyddo pwysigrwydd dyletswydd; a • Sicrhau bod staff yn gweithredu'r ddyletswydd yn effeithiol. <p>Mae disgwyliadau ar yr awdurdod lleol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gweithio mewn partneriaeth er mwyn cytuno ar risg a chydlynu gweithgareddau Prevent. ▪ Gan ddefnyddio'r proffiliau gwrthderfysgaeth lleol presennol 	

	<p>(CTLPau) a gynhrychir ar gyfer pob rhanbarth gan yr heddlu er mwyn asesu'r risg o unigolion yn cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Datblygu cynllun gweithredu Prevent er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i gydymffurfio â'r ddyletswydd a mynd i'r afael â pha bynnag risgiau sydd wedi eu hadnabod ▪ Cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r ddyletswydd gan gynnwys ein Contractwyr. ▪ Sicrhau nad yw lleoliadau ac adnoddau sydd o dan berchnogaeth gyhoeddus yn darparu platfform i eithafwyr ac nad ydynt yn cael eu defnyddio er mwyn lledaenu safbwyntiau eithafol. ▪ Sicrhau bod egwyddorion y ddyletswydd yn cael eu cynnwys yn ein contractau mewn ffurf addas. <p>Mae'r Swyddfa Gartref yn craffu ar gynlluniau gweithredu Prevent lleol fel y mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn.</p>	
Rhan 5	<p>Rhan o Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Maen nhw'n cael eu defnyddio pan fo honiad fod person sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl wedi:-</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio neu a allai fod wedi niweidio plentyn neu oedolyn mewn perygl. ▪ Gallai fod wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl neu sy'n cael effaith uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn sydd mewn perygl ▪ Wedi ymddwyn tuag at blentyn, plant neu oedolion sydd mewn perygl mewn ffordd sy'n dangos eu bod yn anaddas i weithio gyda naill ai/ neu blant ac oedolion 	

Adolygiad Dynladdiad Domestig (DHR)	Mae Adolygiad Dynladdiad Domestig (DHR) yn adolygiad aml-asiantaeth o'r amgylchiadau lle mae marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu'n ymddangos ei fod, wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan berson y mae ney yr oeddent yn gysylltiedig ag ef/hi, neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos ag ef/hi, neu'n aelod o'r un aelwyd â nhw eu hunain.	
Bwrdd Diogelu Corfforaethol	Gweithredu ar lefel Strategol er mwyn darparu Aelodau a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol â sicrwydd, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd yn atebol yn y pen draw am ddiogelu plant ac oedolion bregus, bod trefniadau a gweithdrefnau priodol yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau bod y gwaith o ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion yn bodloni'r gofynion statudol.	Awdurdod Lleol
Bwrdd Darparu Diogelu Corfforaethol	Mae'r Bwrdd Darparu Diogelu Corfforaethol yn gyfrifol am gyflawni'r cyfeiriad strategol a osodir gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol.	Awdurdod Lleol
Byrddau Diogelu Plant a sefydlwyd o dan adran 134(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 204 ("y Ddeddf") a sefydlwyd y Byrddau Diogelu Oedolion o dan Adran 134(5) o'r Ddeddf.	<p>Fforwm amlasiantaeth sy'n dod â chynrychiolwyr o'r prif asiantaethau eraill a gweithwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb am helpu i atal ac amddiffyn Plant ac Oedolion rhag camdriniaeth ac esgeulustra ynghyd; gyda'r amcanion i hyrwyddo, hysbysu a chefnogi diogelu amlasiantaeth ar gyfer Plant ac Oedolion ledled Gogledd Cymru.</p> <p>Y pwrpas rhanbarthol yw cydlynu'r cyfeiriad strategol, cydweithio, sicrhau cysondeb a gwella ymarferion ar draws y rhanbarth gan sicrhau bod trefniadau yn gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer Plant ac Oedolion.</p>	Amlasiantaeth Gogledd Cymru
Bwrdd Contest	Yr arweinydd strategol wrth fynd i'r afael â'r bygythiad rhanbarthol, risgiau a bregusrwydd mewn perthynas â	Amlasiantaeth Gogledd Cymru

	gwrthderfysgaeth ar draws y strategaeth Contest. Mae'r bwrdd yn edrych ar draws y strategaeth Contest.	
Bwrdd Prevent	<p>Mae'r Bwrdd Prevent yn gweithio i</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ddarparu ymateb cyson a chydlynus tuag at yr her ideolegol o derfysgaeth a'r bygythiad gan y rhai sy'n ei hyrwyddo. ▪ Darparu arweiniad a chyfeiriad ar draws y rhanbarth ar faterion Prevent gan gynnwys datblygiad a chyhoeddiad cynllun gweithredu rhanbarthol. 	Amlasiantaeth Gogledd Cymru
Partneriaeth Diogelu Cymunedol Gwynedd a Môn	Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n cydweithio er mwyn edrych sut y gallwn fynd ati i ymladd trosedd ac anrhefn ar draws y ddwy sir. Mae'r gofyniad i gael partneriaeth o'r fath yn ei lle ar lefel leol wedi ei gynnwys yn y gyfraith, o fewn Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am oruchwylio rhaglenni Prevent o fewn gwasanaethau'r bartneriaeth.	Amlasiantaeth Gwynedd a Môn
Bwrdd Bregusrwydd ac Ecsploetiaeth	<p>Pwrpas y Bwrdd Bregusrwydd ac Ecsploetiaeth yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Darparu arweinyddiaeth, llywodraethiant a chyfeiriad strategol er mwyn bodloni blaenoriaethau sy'n cael eu gyrru'n genedlaethol ac yn rhanbarthol sy'n ymwneud â bregusrwydd ac ecsploetiaeth yn cynnwys Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol; Ecsploetiaeth Droseddol a Chaethwasiaeth Fodern. ▪ Sicrhau darpariaeth effeithiol o flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn amddiffyn ac atal bregusrwydd ac ecsploetiaeth. 	Gogledd Cymru



Diogelu Corfforaethol

Cynllun Gweithredu 2022 – 2024

Tudalen 30

Fersiwn Terfynol

Asesiad RAYG

Tachwedd 2022

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Gweithredu Diogelu Corfforaethol yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gan y cynllun blaenorol ac mae'n cynnwys rhaglenni ehangach. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar weithredu awdurdod cyfan. Nid yw camau unigol y gellir eu cynnwys ar lefel gwasanaeth unigol wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn: oherwydd byddant yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Darparu'r Gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn: ac yn cael eu monitro. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar faterion ar draws gwasanaethau: a phrif feysydd y dylai'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnal trosolwg ohonynt. Yn ogystal â'r Dyletswyddau Diogelu sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014, cyfeirir at faterion diogelu ehangach. Mae crynodeb byr o'r meysydd hynny wedi'u cynnwys yn niwedd y cynllun yma.

Strwythur y Cynllun Gweithredu

Cyflwynir y cynllun gweithredu hwn yn erbyn 6 thema: gan gefnogi dull cydlynol o ddarparu'r camau drwy'r Awdurdod Lleol.

Thema	Rhif yr Amcan	Canlyniad
Arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol	Amcan 1	Cefnogaeth lefel-uchel, polisiâu a gweithdrefnau adrodd o fewn y Sefydliad
Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth: Hyfforddiant a Sgiliau Staff	Amcan 2	Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu'n effeithiol – trwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau
Gweithlu Diogel	Amcan 3	Recriwtio a rheoli gweithlu gan gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a gyda Pholisi Recriwtio a Dethol Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi DBS, Polisi Recriwtio Mwy Diogel.
Cefnogaeth ac Ymyriadau Effeithiol	Amcan 4	Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau perthnasol sy'n adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau statudol a disgwyladau presennol ac arfer gorau a fabwysiadwyd er mwyn i swyddogion wybod yn glir beth y dylid neu y

Ffotograff

		gellid ei wneud mewn amgylchiadau penodol a diffinio cyfyngiadau disgresiwn proffesiynol.
Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau wedi'u comisiynu	Amcan 5	Bod y Strategaeth Gaffael a'r Strategaeth Rheoli Contract yn alinio â Chod ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru. Sicrhau arferion diogel mewn gwasanaethau a gomisiynir a bod yr holl ddarparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu'n effeithiol.

Fudalen 32

Dangosyddion Statws RAYG yn cyfeirio at gynnydd Rhaglenni/Prosiectau

COCH	Hwyr Oedi o ran camau/amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phedair wythnos Materion/risgiau sylweddol a allai atal y prosiect rhag cael ei gwblhau'n brydlon neu o fewn y gyllideb
AMBR	Ar ei Hôl Hi Oedi o ran camau/amcanion neu ffactorau llwyddiant critigol o fwy na phytthefnos Angen penderfyniadau gan y SRO/Cyfarwyddwr a/neu'r Bwrdd
MELYN	Ar y Trywydd lawn

		Y prosiect ar y trywydd iawn ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau'n brydlon
	GWYRDD	Cwblhawyd Cwblhawyd y cam/tasg/prosiect
	GLAS	Heb Gychwyn

Arweinyddiaeth a Llywodraethu Corfforaethol						
Amcan 1 - Cymorth, polisiâu a gweithdrefnau adrodd lefel uchel yn y Sefydliad						
	Prif Dasg	Pwy	Pryd	Cynnydd	RAYG	
Tudalen 34	1.1	Channel, fel swyddogaeth statudol awdurdod lleol (Adran 36 o'r CTSA), wedi'i gynnwys o fewn cyfansoddiad yr awdurdod lleol.	Dirprwy Brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol/ Swyddog Monitro (Pennaeth Busnes y Cyngor)	31 Rhagfyr 2022		
	1.2	Channel (fel rhan o 'adrodd Atal') wedi ei gynnwys yn nhrefniadau llywodraethu'r awdurdod lleol: Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd yn rheolaidd i aelodau am drefniadau diogelu o fewn yr awdurdod a sut mae'r trefniadau hyn yn gweithio, a beth sydd angen ei wella	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	31 Rhagfyr 2022		
	1.3	Cryfhau trefniadau hunanwerthuso blynyddol ar gyfer gwasanaethau ac adrodd i fyrddau gweithredol a strategol-	Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad	31 Mawrth 2023		

	- Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn proses Her Gwasanaeth.					
Tudalen 35	1.4	Pob Gwasanaeth i roi gwybod i'r Bwrdd Gweithredu am gynnydd o ran gweithredu'r cynllun gweithredu hwn a'r Polisi Diogelu Corfforaethol		Yn parhau	Nid yw pob gwasanaeth yn adrodd ond mae hyn yn ennill momentwm. Hyd yma mae Tai: Gwasanaethau Dysgu: Economaidd a Rheoleiddio: a Phrifyrdd, Eiddo a Gwastraff wedi adrodd.	
		Mabwysiadu'r protocolau rhannu gwybodaeth angenrheidiol a ddatblygwyd gan y byrddau rhanbarthol – Bwrdd Herio (Contest) a Bwrdd V & E			Angen cyfarwyddyd p'un ai a yw'r rhain yn parhau i fod yn ofynnol.	
	1.5	Mae'r Gwasanaethau yn cynnal gweithgaredd sicrwydd / sampl ar hap i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu polisiau ac arferion diogelu yn gyson:-	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	31 Mawrth 2023	Ar hyn o bryd yn ystyried pa ardal i ganolbwyntio ar y cyfnod hwn.	

	Meysydd a awgrymir:- Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Asesiadau Risg – Gweithlu diogel					
2	Cyfathrebu ac Ymwybyddiaeth Gweithlu sydd â'r gallu i gyflawni ei ddyletswyddau diogelu'n effeithiol - trwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau					
	Prif Dasg	Pwy	Pryd	Cynnydd		
Tudalen 36	2.1	Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r broses o dderbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth	31 Rhagfyr 2022	85% - 100% 65% - 84% 0 - 64%	94% @ 10.10.22
	2.2	Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau Ymwybyddiaeth Sylfaenol – Caethwasiaeth Fodern	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth	31 Rhagfyr 2022	85% - 100% 65% - 84% 0 - 64%	73% @ Tachwedd 2022
	2.3	Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau Ymwybyddiaeth Sylfaenol - Atal	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth	31 Rhagfyr 2022	85% - 100% 65% - 84% 0 - 64%	66% @ Tachwedd 2022

Tudalen 37	2.4	Cydlynu rhaglen gweithgareddau ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu.	Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol Lisa Capper - a'r grŵp tasg a gorffen.	31 Rhagfyr 2022		
	2.5	Cwblhau a Lansio adran Diogelu Corfforaethol Monitor.	Grŵp Tasg wedi'i sefydlu	31 Rhagfyr 2022		
	2.6	Adolygu'r wybodaeth allanol am Ddiogelu ar wefan yr Awdurdod Lleol	Grŵp Tasg	30 Medi 2023		
	2.7	Cwblhau'r adolygiad a gweithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth	31 Mawrth 2023		
		VAWDASV a'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol				
2.8	Mae uwch arweinwyr yr Awdurdod Lleol – Aelodau ac Uwch Swyddogion – yn cwblhau Lefel 6 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Gofyn a Gweithredu – drwy gyfres o glipiau fideo.	Uwch Dîm Arwain Penaethiaid Gwasanaeth Aelodau	30 Medi 2022	Uwch Swyddogion a benodir o'r newydd ac Aelodau newydd i'w gwblhau		

Tudalen 38	2.9	<p>Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Lefel 1</p> <p>VAWDASV trwy E-ddysgu neu'r llyfrynnau - gan gynnwys y staff hynny sy'n newydd i'r awdurdod</p>	Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth	31 Mawrth 2023	80%
	2.10	<p>Cyflwyno Lefel 2 Gofyn a Gweithredu</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Bydd rhaid i wasanaethau restru'r rhai sydd mewn sefyllfa i ofyn a gweithredu ▪ Sefydlu cynllun ar gyfer cyflwyno Lefel 2 ar draws gwasanaethau mewn grwpiau blaenoriaeth i lywio'r cynllun rhanbarthol 	<p>Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth gyda chefnogaeth</p> <p>Uned Datblygu'r Gweithlu</p>	31 Mawrth 2023	<p>Grŵp 2 yn cael ei gyflwyno.</p> <p>Yng Ngwasanaethau Dysgu mae 198 o bobl wedi mynychu dros 11 sesiwn.</p> <p>Gweithwyr eraill y cyngor – 444 dros 20 sesiwn</p>

3 Gweithlu Diogel					
Amcan 3 - Gweithlu sy'n cael ei recriwtio a'i reoli i gydymffurfio'n llawn â gofynion statudol a Pholisi Recriwtio a Dewis, Polisi DBS a Pholisi Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Sir Ynys Môn					
	Prif Dasg	Pwy	Pryd	Cynnydd	
Tudalen 39	3.1 Rhaid i benaethiaid Gwasanaeth sicrhau trefniadau cadarn i <ul style="list-style-type: none"> - Gynnal cofnod canolog o swyddi y mae angen gwiriad DBS ar eu cyfer: gan gynnwys trefn ddigonol o wirio a rheoli i roi rhybudd os oes diffyg cydymffurfio. - Cael a gwirio geirdaon mewn perthynas â swyddi lle gwneir gwaith a reoleiddir - Derbyn hyfforddiant diogelu - P'un a yw asesiadau risg ffurfiol yn cael eu cwblhau a mesurau yn eu lle cyn i weithiwr ddechrau gweithio mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw datgeliad gan y DBS wrth law - P'un a yw mesuriadau ac asesiadau risg ffurfiol yn eu lle os oes amheuaeth ynghylch pryderon diogelu neu y gwyddys am y pryderon hyn o ran gweithwyr sydd eisoes yno 	Cyfarwyddwyr a Phenaeithiaid Gwasanaeth	31 Mawrth 2023	Nid yw cynrychiolwyr y gwasanaeth ar y Bwrdd Gweithredu wedi nodi pryderon ynghylch gweithredu'r cam hwn o fewn eu gwasanaeth	

3.2	<p>Cymorth i staff sy'n gweithio ym maes diogelu plant ac oedolion yn dilyn digwyddiad critigol</p> <p>Mapio trefniadau perthnasol ym mhob gwasanaeth yn erbyn y gofynion yn y canllawiau, a nodi unrhyw gamau sydd eu hangen.</p>	Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen	31 Mawrth 2023		
Tudalen 40	<p>Cefnogaeth ac Ymyraethau Effeithiol</p> <p>Amcan 4 - Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol yn eu lle sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, canllawiau a disgwyliadau statudol ac arfer gorau a dderbynnir, fel bod swyddogion yn gwybod yn glir beth ddylid neu na ddylid ei wneud mewn amgylchiadau penodol a diffinio terfynau disgrisiwn proffesiynol.</p>				
	Prif Dasg	Pwy	Pryd	Cynnydd	
4.1	<p>Cynnal gwybodaeth broffesiynol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Atgoffa Ymarferwyr - adnoddau ar gael ar wefan NWSCB - Dylai staff gofrestru am y cylchlythyr wythnosol gan NWSB - Ap Diogelu Cymru wedi'i lawr lwytho ar gyfrifiaduron/liniaduron <p><i>MAPF Wrecsam</i></p>	Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i atgoffa eu gwasanaethau o'r angen i gydymffurfio	31 Medi 2022	<p>Neges Dolen wedi'i hanfon allan yr wythnos yn dechrau 13 10 22</p> <p>Gofynnwyd i aelodau'r bwrdd gweithredu hyrwyddo hyn o fewn eu gwasanaeth</p>	

4.2	<p>Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Protocol Aml-Asiantaeth – Gweithio gyda Theuluoedd sy'n Arddangos</p> <p>Cydymffurfiaeth Gudd - NWSCB</p> <p>Yn ystod yr wythnos ddiogelu</p> <p><i>MAPF Wreccsam</i></p>	<p>Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol</p> <p>Gwasanaeth Plant a Theuluoedd: Gwasanaethau Oedolion: Gwasanaethau Tai: Gwasanaeth Dysgu</p>	31 Rhagfyr 2022	<p>Mae staff wedi eu cyfeirio at ddarpariaeth BDGC ar gyfer wythnos ddiogelu. Efallai y bydd angen ystyried digwyddiad codi ymwybyddiaeth leol hefyd.</p>	
4.3	<p>Codi ymwybyddiaeth o Bolisi Diogelu Plant Anabl y NWSCB</p> <p>Yn ystod yr wythnos ddiogelu</p> <p><i>MAPF Wreccsam</i></p>	<p>Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol</p>	31 Rhagfyr 2022	<p>Ddim yn rhan o ddarpariaeth BDGC ar gyfer eleni - bydd angen ystyried digwyddiad codi ymwybyddiaeth yn lleol.</p>	
4.4	<p>Celcio</p> <p>Hyrwyddo ymwybyddiaeth y Protocol Celcio NWSCB.</p> <p>Yn ystod yr wythnos ddiogelu</p> <p><i>MAPF Wreccsam</i></p>	<p>Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol</p>	31 Rhagfyr 2022	<p>Mae sesiwn gyda Michael Preston Shoot – sy'n awdurdod yn y maes hwn – yn cael ei drefnu ar gyfer CSYM</p>	

Tudalen 42	<p>4.5 Codi ymwybyddiaeth o Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, Cefnogi Plant, Cefnogi Rhieni; Protocol Aml-Asiantaeth Gogledd Cymru – Rhieni gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol a/neu gamddefnyddio sylweddau.</p> <p>Yn ystod yr wythnos ddiogelu</p> <p><i>MAPF Wrecsam</i></p>	Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol	31 Rhagfyr 2022	Mae staff wedi eu cyfeirio at ddarpariaeth BDGC ar gyfer yr wythnos ddiogelu. Mae'r sesiynau'n llawn – efallai y bydd angen ystyried darpariaeth leol hefyd	
	<p>4.6 Gwasanaeth Dysgu</p> <p>Protocol ar gyfer rheoli cynlluniau presenoldeb a'r broses drosglwyddo er mwyn sicrhau bod cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo'n ddi-dor rhwng yr ysgol a gwasanaeth EW</p> <p>Protocol ar gyfer cofnodi absenoldebau</p> <p>Dylai EW fonitro plant sy'n absennol o'r ysgol a'r rhai a gofnodwyd sy'n</p>	Cyfarwyddwr Addysg	31 Mawrth 2023	<p>Mae gan bob dalgylch EWO penodol sy'n cefnogi ysgolion i nodi a chefnogi disgyblion gyda materion presenoldeb. Mae trefn gadarn o weithio mewn partneriaeth, yn unol â pholisi presenoldeb sy'n cael ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd</p> <p>Mae'r protocol cofnodi absenoldeb wedi'i gynnwys yn y polisi presenoldeb</p>	

	<p>bresennol ond gyda gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd</p> <p>Dylai tiwtoriaid cartref dderbyn goruchwyliaeth a mynychu hyfforddiant diogelu</p> <p><i>MAPF Wrecsam</i></p>			<p>Mae gan diwtoriaid cartref fynediad at hyfforddiant diogelu yn unol â staff cynhwysiant eraill</p>	
Tudalen 43	<p>4.7 Codi ymwybyddiaeth drwy hyfforddiant ar y llwybrau atgyfeirio a chanllawiau arfer da i godi ymwybyddiaeth ynghylch caethwasiaeth fodern a'r ddyletswydd i gyfeirio i'r NRM os oes pryder ynghylch masnachu i bwrpas cam-fanteisio.</p>	<p>Swyddog Gwella Ymarfer</p> <p>Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	31 Mawrth 2023	<p>Cytunwyd ar y llwybr rhanbarthol fis Tachwedd 2022. Hyfforddiant i ddilyn</p>	
	<p>4.8 Polisi Atal Corfforaethol angen ei adolygu</p>	<p>Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen</p>	30 June 2023		

Tudalen 44	4.9	Canllawiau Arfer Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus nad ydynt yn arbenigo yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sy'n cyflawni troseddau yn erbyn menywod a chyflawnwyr trais yn y cartref a thrais rhywiol. – Bydd pob Gwasanaeth yn ystyried rhwymedigaethau'r Canllawiau iddyn nhw. Er bod rhai materion yn benodol i rai gwasanaethau, mae eraill yn berthnasol i'r sefydliad cyfan - Materion Iechyd a Diogelwch; Materion Polisi Cam-drin Domestig y Gweithlu; Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth	Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol	31 Rhagfyr 2023		
------------	-----	---	--------------------------------------	-----------------	--	--

Partneriaid, gwirfoddolwyr a gwasanaethau a gomisiynir

Amcan 5 Sicrhau arferion diogel a moesegol wrth gaffael a rheoli contractau mewn gwasanaethau a gomisiynir fel bod gofynion diogelu'n cael eu bodloni.

	Prif Dasg	Pwy	Pryd	Cynnydd	
5.1	Llunio datganiad ysgrifenedig blynyddol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad a'r	Dirprwy Brif Weithredwr	30 Medi 2023		

	gadwyn gyflenwi				
5.2	Rhoi hyfforddiant ar y Cod Ymarfer i swyddogion perthnasol er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u harferion o ran sicrhau nad ydym yn cyflogi, nac yn defnyddio contractwyr nad ydynt yn gweithredu'n gyfreithlon	Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol	31 Rhagfyr 2022	Hyfforddiant yn cael ei sicrhau Efallai na fydd y cam hwn yn cael ei gyflwyno gan y garreg filltir yn y golofn flaenorol. Anelu at gyflawni yn chwarter 3 a chwarter 4	
Tudalen 45 5.3	Ar ôl mabwysiadu'r Safonau Diogelu ar gyfer Caffael a Rheoli Contractau, rhaid i'r holl Wasanaethau roi rhaglen ar waith ar gyfer adolygu contractau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau / gofynion a nodwyd, gan gynnwys sut maent yn cynnig monitro bod y darparwyr yn cydymffurfio â'r gofynion	Cyfarwyddwyr a Phenaeithiaid Gwasanaeth	31 Mawrth 2023	Mae cynrychiolwyr y gwasanaeth ar y Bwrdd Gweithredu wedi trafod yr her yn y cam hwn gan fod trefniadau rheoli'r contract ac adnoddau o fewn pob maes gwasanaeth yn amrywio.	

CYD-DESTUN

<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 46</p> <p>Dyletswydd Atal</p>	<p>Dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Rydym yn amcanu at: -</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Atal pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth, wrth gyflawni ein gwahanol swyddogaethau. ▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach. ▪ Sefydlu polisiau a gweithdrefnau priodol. ▪ Sicrhau bod staff yn wybodus am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn neu'n cynllunio gweithred derfysgol. ▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir fydd yn gwrthsefyll y broses graffu. <p>Mae gan Fwrdd Contest Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.</p> <p>Mae'r Dirprwy Prif Weithredwr yn derbyn ac yn adolygu Proffil Lleol Gwrthderfysgaeth a bydd yn rhoi gwybod i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am unrhyw risg newydd/gynyddol o radicleiddio neu eithafiaeth er mwyn gallu diweddarau'r gofrestr risg gorfforaethol.</p>
<p>Caethwasiaeth Fodern</p>	<p>Dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Rydym yn amcanu at: -</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gyhoeddi Datganiad Blynyddol, nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn y sefydliad nac yn ein cadwyn gyflenwi. ▪ Penodi Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol. ▪ Nodi a chefnogi pobl fregus fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu ehangach. ▪ Hysbysu'r Swyddfa Gartref ynghylch Dioddefwyr Posibl Caethwasiaeth Fodern. ▪ Cyfeirio dioddefwyr posibl fel ymatebwr cyntaf i awdurdod cymwys, (Uned Caethwasiaeth Fodern Masnachu Pobl – MSHTU), drwy'r Dull Cyfeirio Cenedlaethol. ▪ Cyfeirio unrhyw blant sydd o bosibl yn destun masnachu plant i'r Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant (ICTAs). ▪ Sefydlu polisiau a gweithdrefnau.

	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sicrhau bod staff yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud os byddant yn dod ar draws neu'n dod yn ymwybodol o bobl sy'n cael eu tynnu i mewn neu'n cynllunio gweithred derfysgol. ▪ Cynnal cofnodion llawn a phriodol o gamau a gymerir bydd yn gwrthsefyll y broses graffu <p>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgarwch Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn.</p> <p>Mae gan Fwrdd Caethwasiaeth Gogledd Cymru Gynllun Gweithredu Rhanbarthol: ac mae'r camau sydd yn y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleoli i gyflawni gofynion perthnasol y Cynllun Rhanbarthol.</p> <p>Y Dirprwy Prif Weithredwr, yw'r Pencampwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesebol.</p>
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Fudalen 47</p> <p>Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)</p>	<p>Rydym yn amcanu at: -</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Amddiffyn plant ac oedolion yn ein hardal a allai fod mewn risg neu sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed ac; - ▪ Atal plant ac oedolion yn ein hardal rhag bod mewn risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a mathau eraill o niwed. ▪ Sicrhau bod arfer diogelu, cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau partner yn gwella'n barhaus ac yn hybu canlyniadau da i blant ac oedolion a allai fod mewn risg yn yr ardal leol. ▪ Amddiffyn plant a phobl ifanc yn gadarn trwy ddull aml-asiantaeth gyda phartneriaid a chymunedau. <p>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu gofynion Strategaeth CSE Gogledd Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i chwarae rhan lawn yng Ngrŵp Gweithredol CSE Gogledd Cymru, a chefnogi gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol i raeadru a datblygu modelau arfer gorau o safbwynt mynd i'r afael â Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant.</p> <p>Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, byddwn hefyd yn ystyried y cysylltiadau â'r rhaglen Llinellau Sirol (gangiau cyffuriau cyfundrefnol), sy'n galw am gydweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithgaredd Llinellau Sirol, fel Masnachu Pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, troseddu, troseddu treisgar, troseddau cyffuriau, troseddau ariannol, cam-fanteisio ar oedolion bregus. Wrth i'r rhaglen hon ddatblygu, gellir cynnwys dyletswyddau ychwanegol at y safonau/gweithgareddau diogelu hyn.</p>

<p>Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 48</p>	<p>Dyletswyddau Cyfreithiol – Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gofyn a Gweithredu - Prosiect cenedlaethol wedi'i dargedu ar draws Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dyletswydd sefydliadol i annog gweithwyr proffesiynol perthnasol i “Ofyn” i ddiodefwrwyr posibl mewn amgylchiadau penodol (ymholi wedi'i dargedu) a “Gweithredu” er mwyn sicrhau bod niwed o ganlyniad i drais a cham-drin yn cael ei leihau ▪ Darparu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol ▪ Mae'n cynnwys cyfathrebu, hyfforddi, datblygu polisi, rhannu gwybodaeth, llwybrau cyfeirio at wasanaethau arbenigol, casglu ac adolygu data <p>Y Bwrdd Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru yw'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol: gan ddarparu dull partneriaeth i atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Ngogledd Cymru. Maent yn arwain ac yn cefnogi'r broses o weithredu'r ddeddf: gan ddatblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth ranbarthol; gan sicrhau bod materion yn cael sylw strategol ac effeithiol yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol rhanbarthol o ran ymwybyddiaeth a darparu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.</p> <p>Y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r rôl arweiniol ar gyfer Gofyn a Gweithredu</p>
---	--

Cyfrifoldeb Pawb

Yn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, bydd y Cyfarwyddwr a Phenathiaid Gwasanaeth yn cynnwys targedau Diogelu ar gyfer y flwyddyn ac yn adrodd am gynnydd o fewn adolygiadau perfformiad corfforaethol.

Cyfathrebu o fewn y Sefydliad

Rhaid i'r cynrychiolwyr yn y Byrddau Rhanbarthol amrywiol y cyfeirir atynt uchod ac eraill - Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru, Bwrdd Cymunedau Diogel, sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol) am brif faterion a drafodwyd ar sail ranbarthol: sydd angen ymateb lleol ar sail gorfforaethol. Dylai'r prif swyddogion, ar gais cadeirydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (strategol), baratoi diweddariadau ynghylch y ddarpariaeth, prif faterion risg i blant ac oedolion mewn risg, yn cynnwys coladu a monitro nifer, natur a chanlyniadau atgyfeiriadau.

Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod Aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion arweiniol, aelodau eraill yr Uwch Dîm Arweiniol a Phenaethiaid yn cael eu briffio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu.

Pan fo angen darperir gwybodaeth/bwletinau/erthyglau diogelu angenrheidiol ar gyfer staff mewn deunydd cyfathrebu perthnasol i staff mewnol. Cyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu Corfforaethol (Gweithredol) fydd hyn.

Hyfforddiant

Rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth a Chyfarwyddwr sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Diogelu Sylfaenol, Cyffredinol neu Arbenigol ar lefel sy'n berthnasol i'w rôl. Mae gofynion hyfforddi penodol eraill wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn. Bydd gan rai gwasanaethau anghenion hyfforddi penodol i'w rolau. Ni adlewyrchir hyn yn y cynllun hwn – gan fod y ffocws ar hyn o bryd ar godi ymwybyddiaeth gorfforaethol: a chydymffurfio o safbwynt dysgu/hyfforddiant mandadol drwy'r sefydliad.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	17 Ionawr, 2023
Pwnc:	Cynllun Llesiant 2023-28 (Drafft) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd
Pwrpas yr Adroddiad:	Rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Sgrwtini graffu cynnwys Cynllun Llesiant Drafft Môn a Gwynedd
Cadeirydd Sgrwtini:	Cyng Dylan Rees
Aelod(au) Portfolio:	Cyng Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Dylan Williams, Prif Weithredwr
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 01286 679906 sandralynnethomas@gwynedd.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgrwtini, fel ymgynghorai statudol, nodi a chynnig sylwadau ar y Cynllun Llesiant drafft sydd i'w chyhoeddi ym mis Mai 2023.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at, a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgrwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
- 3.4** Sgrwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - Hirdymor
 - Atal
 - Integreiddio
 - Cydweithio
 - Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. *A ydych yn ystyried bod yr amcanion llesiant a'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer gwireddu'r amcanion am wella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd y ddwy sir?*
2. *A oes unrhyw flaenoriaethau ar goll – yn enwedig wrth ystyried canfyddiadau'r Asesiadau Llesiant ar ddechrau'r flwyddyn?*
3. *Lle gall y Bwrdd gydweithio a chyd-ddylanwadu er mwyn gwneud gwahaniaeth?*
4. *Ym mha ffordd y gall cymunedau gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun ac i'w ddatblygu ymhellach i'r dyfodol?*

5 – Cefndir / Cyd-destun**5.1 CYFLWYNIAD A CHYD DESTUN:**

- 5.1.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n amlinellu sut y bwriedir gwella llesiant trigolion yr ardal.
- 5.1.2** Fel y byddwch yn ymwybodol mae Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn yn cynnwys cynrychiolaeth ar y lefel uchaf o'r prif gyrff cyhoeddus yn yr ardal.
- 5.1.3** Rhan gyntaf y gwaith o lunio'r Cynllun Llesiant oedd cynnal asesiad o lesiant lleol gan wneud gwaith ymchwil er mwyn deall a dysgu mwy am yr ardaloedd hynny.
- 5.1.4** Ym mis Mai 2022 cyhoeddwyd Asesiadau o Lesiant Lleol ar gyfer ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ddwy sir wedi eu rhannu yn 14 o ardaloedd llai (8 yng Ngwynedd a 6 ym Môn).
- 5.1.4** Bu i'r Asesiadau dynnu at ei gilydd amrediad o wybodaeth am gymunedau Gwynedd a Môn. Fe edrychom ar y gwaith ymchwil mwyaf cyfredol, casglu data ac ymgysylltu â'n grwpiau cymunedol i ddod i wybod beth sy'n dda am ein cymunedau, a beth sydd ddim cystal.
- 5.1.5** Roedd yr Asesiadau Llesiant yn gyfle i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd y mae ein cymunedau yn eu wynebu; yn enwedig effeithiau'r pandemig Covid-19, Brexit yn ogystal a'r argyfwng costau byw.
- 5.1.6** Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth uchod gan y Bwrdd wrth lunio'r Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer Gwynedd a Môn. Ceir copi o'r ddogfen hon yn Atodiad 1.

5.2 CYNLLUN LLESIANT DRAFFT:

5.2.1 Yn y cynllun fe amlinellir sut mae'r Bwrdd yn bwriadu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion trwy gydweithio er mwyn cyflawni ar gyfer yr ardal gyfan.

5.2.2 Mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awyddus i wneud cyfraniad ystyrlon i dirwedd y bartneriaeth heb ddyblygu gwaith partneriaethau eraill ac felly mae'r Cynllun Llesiant drafft yn ceisio amlygu'n glir o ran p'un a oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rôl arweiniol neu rôl gyflawni mewn perthynas â'r blaenoriaethau llesiant.

5.2.3 Mae'r **Amcanion Llesiant** wedi eu llunio yn dilyn dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant a gwblhawyd yn ystod 2021/22.

5.2.4 Mae'r BGC wedi adnabod tri Amcan Llesiant:

- **Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlogi ar lesiant ein cymunedau.**
- **Rydym am weithio gyda'n gilydd i flaenoriaethu lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc.**
- **Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon.**

5.2.5 Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd **yr iaith Gymraeg** yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.2.6 Ar gyfer pob un o'r amcanion hyn, mae tablau manwl yn rhoi mwy o wybodaeth am pam y cawsant eu dewis a pha gamau yr ydym ni'n ystyried eu cymryd i'w cyflawni. Fel yr eglurwyd yn gynharach, bydd y rhain yn cael eu diwygio a'u mireinio yn ystod y cyfnod ymgynghori o ganlyniad i fwy o wybodaeth a beth yw barn pobl.

5.2.7 Cred y Bwrdd fod y rhain yn feysydd y gellir cydweithio yn well ynddynt, mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector gyhoeddus, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

5.3 CAMAU NESAF:

5.3.1 Bydd y cyfnod o dri mis o ymgynghori statudol yn dod i ben ar 6ed o Mawrth. Yn dilyn hyn bydd y Bwrdd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn llunio Cynllun Llesiant terfynol.

5.3.2 Unwaith y bydd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r fersiwn derfynol bydd y Cynllun Llesiant yn cael ei gyflwyno i Fyrddau/Cyngor Llawn yr aelodau statudol am gymeradwyaeth cyn ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Yr aelodaeth statudol ydi Cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

5.3.3 Yn achos Cyngor Môn bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar **(*Dyddiad iw gadarnhau*)**

5.4 TREFNIADAU CRAFFU:

5.4.1 Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / Sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

5.4.2 Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

5.4.3 Mae dyletswydd statudol ar y Pwyllgor Sgriwtini i graffu cynnwys y ddogfen fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai un o'r partneriaid ydym ni fel Cyngor ac mai penderfyniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fydd cynnwys y cynllun terfynol.

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC

6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol

6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae Tim Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu a'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Cynllun Llesiant.

7 – Goblygiadau Ariannol

Dim

8 – Atodiadau**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**



DRAFFT YMGYNGHORI

CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN 2023-2028

Cynnwys

1	Croeso
2	Rhagair gan Gadeirydd y BGC
3	Cefndir i'r Cynllun Llesiant
4	Aseiad o Lesiant Lleol
5	EIN AMCANION LLESIANT ARFAETHEDIG
6	Sut rydym wedi datblygu'r Amcanion Llesiant Arfaethedig
7	Y camau nesaf – ymgynghoriad
Atodiad 1:	Prif negeseuon o'r Aseidiadau Llesiant 2022
Atodiad 2:	Sut byddwn yn gweithredu i'r dyfodol (y pum ffordd o weithio)

1. Croeso

Croeso i ymgynghoriad ar ddrafft ail Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, neu'r BGC fel mae'n cael ei alw'n aml, wedi defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr [Aseiad Llesiant](#) i edrych ar sut i wella llesiant ar draws y rhanbarth. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod a ydych chi'n credu y bydd y cynlluniau sydd gennym ni'n helpu i wneud pethau'n well i chi a'ch cymuned. Hoffem hefyd wybod a oes gennych chi unrhyw syniadau eraill am sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd er budd ein cymunedau.

Bydd y cynllun yn newid ac yn esblygu dros yr wythnosau nesaf wrth i ni gael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth well fyth o'r hyn sy'n bwysig a sut y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i wneud Gwynedd a Môn yn lefydd gwell i fyw, gweithio ac ymweld a nhw. Dyna pam mae rhai o'r manylion ynghylch yr amcanion arfaethedig a sut y byddwn ni'n gwybod os ydym ni'n gwneud gwahaniaeth ar goll. Byddwn yn siarad â phobl ac yn casglu barn tan **6ed Mawrth 2023** felly mae digon o amser i chi roi gwybod i ni be rydych yn ei feddwl. Cewch fanylion ar sut i gysylltu ar ddiwedd y ddogfen hon.

2. Rhagair gan Gadeirydd y BGC

Mae gennym weledigaeth i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cymunedau yn ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor. Nod y Cynllun Llesiant yw gosod allan sut yr ydym am gyflawni hyn a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion Gwynedd a Môn. Fel darparwyd gwasanaethau cyhoeddus byddwn yn cydweithio i gyflawni uchelgais cyffredin ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Bydd y sefydliadau unigol yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol yn ogystal â chyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae ymgysylltu gyda chymunedau yn greiddiol i lwyddiant y cynllun, ac mae'r Bwrdd yn ymrwymo i ddarparu arweiniad clir er mwyn cyrraedd ei amcanion.

Mae gennym gymunedau cryf a balch, gyda thraddodiad o helpu'n gilydd ac o gydweithio. Bydd rôl y cymunedau hyn yn ganolog wrth gyflawni'r amcanion llesiant sydd wedi eu gosod yn y cynllun hwn.

Dylai'r amcanion a'r camau i'w cyflawni, ar ôl eu cwblhau, gysylltu a chefnogi ei gilydd oherwydd natur groes-dorri'r amcanion. Dylai pob aelod o'r BGC allu chwarae eu rhan yn llawn wrth gyflawni'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y cynllun.

Ers i ni ddechrau edrych ar yr hyn y gallem ei wneud i wella lles yng Ngwynedd a Môn, mae'r rhyfel yn yr Wcrain a chostau argyfwng byw wedi gwneud bywydau rhai pobl hyd yn oed yn anoddach. Wrth i ni barhau i ddatblygu'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartneriaid, byddwn yn edrych ar sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu cynnwys yn y cynllun terfynol.

Aled Jones-Griffiths

Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

3. Cefndir i'r Cynllun Llesiant

Yn 2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru gyfraith newydd yng Nghymru o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Digwyddodd hyn yn dilyn sgysiau gyda miloedd lawer o bobl ledled Cymru am y "Cymru yr ydym ei eisiau".


Mae'r gyfraith hon yn rhoi dinasyddion Cymru yng nghanol pob peth y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i wella Cymru yn economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol, ac mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei chalon. Golyga hyn fod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus weithio mewn ffordd sy'n gwella lles pobl heddiw heb wneud unrhyw beth a allai wneud pethau'n waeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o fabanod, plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn, mewn geiriau eraill ein teuluoedd, ifanc a hen, a'n ffrindiau a'n cymdogaion i gyd.

Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant cenedlaethol a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Mae hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn well am wneud penderfyniadau drwy osod dyletswydd ar sefydliadau i feddwl am yr hir-dymor, i gydweithio ac i ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau.

Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio wedi eu cynllunio i gefnogi gyrff cyhoeddus i gwrdd ag anghenion presennol eu cymunedau, a sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol. Dyma'r saith nod llesiant cenedlaethol:



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus unigol weithredu'n gynaliadwy a defnyddio'r pum ffordd ganlynol o weithio:



Yn ogystal â'r disgwyliad i weld pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio yn y modd hwn, mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi penderfynu cydweithio fel un Bwrdd ar y cyd er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus ar draws yr ardal yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell ar gyfer pobl Gwynedd a Môn.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant ein hardal a chreu Cynllun Llesiant gyda'r nod o gydweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl a chymunedau yn ein hardal ni.

Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn:

Pump aelod statudol y Bwrdd yw:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Aelodau gwahoddedig y Bwrdd yw:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Prifysgol Bangor
- Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cymru

Mae cyfle i wahodd cyrff / mudiadau / sefydliadau / partneriaid eraill i eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn pan fydd amcanion a chymau gweithredu penodol ddod i'r amlwg.

4. Yr Asesiadau Llesiant Lleol

Ym mis Mai 2022 cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Mae wyth o'r ardaloedd yma

yng Ngwynedd a chwech ar Ynys Môn. Mae'r llyfrynnau gwybodaeth ar gyfer pob ardal ar gael ar y wefan. www.llesiantgwyneddamon.org/cy

Man cychwyn yn unig oedd yr asesiad – braslun o lesiant yr ardal oedd yn mynd law yn llaw â'r llyfrynnau ardal er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall Gwynedd a Môn yn well. Wedi ystyried y data a barn pobl leol, daeth y Bwrdd i'r casgliad mai dyma yw'r materion sy'n bwysig i drigolion Gwynedd a Môn:

- Ymateb i dlodi a chostau byw
- Gwella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
- Gwella iechyd a lles meddyliol
- Newid hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau net sero
- Hybu defnydd yr iaith Gymraeg
- Galluogi profiad cyfartal a mynediad i natur
- Cynllunio gweithlu i'r dyfodol sy'n ateb anghenion y gymuned a'r economi leol
- Sicrhau tai i bobl leol
- Dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus

Gwelwch **Atodiad 1** am fanylion pellach ar y prif negeseuon a gasglwyd o'r Asesiadau Llesiant.

5. EIN AMCANION LLESIANT ARFAETHEDIG:

Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau Llesiant, mae'r BGC wedi adnabod **tri Amcan Llesiant**:

- Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i flaenoriaethu lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc**.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.

Mae'n bwysig nodi hefyd y bydd yr **iaith Gymraeg** yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar gyfer pob un o'r amcanion hyn, mae'r tablau isod yn rhoi mwy o wybodaeth am pam y cawsant eu dewis, pa gamau yr ydym ni'n ystyried eu cymryd i'w cyflawni a sut maen nhw'n cyfrannu at bob un o'r Nodau Llesiant. Fel yr eglurwyd yn gynharach, bydd y rhain yn cael eu diwygio a'u mireinio yn ystod y cyfnod ymgynghori o ganlyniad i fwy o wybodaeth a beth yw barn pobl.

Amcan Llesiant 1: Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau

Uchelgais:

Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hirdymor tlodi. Byddwn yn ceisio cael dealltwriaeth fanwl o'r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein gwahanol ardaloedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r

Aseidiadau Llesiant i gael darlun manwl o ble mae'r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tlodi.

Be gallem ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:

- Byddwn yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw.
- Byddwn yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngwynedd a Môn gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid.
- Byddwn yn coladu buddion ac adnoddau i liniaru effaith tlodi mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sydd angen cymorth.
- Byddwn yn ysgogi a chefnogi grwpiau cymunedol i helpu pobl i aros yn wydn, er enghraifft, cefnogi ffyrdd iach o fyw, neu ddarparu cymorth gyda phwysau costau byw.
- Byddwn hefyd yn dechrau nodi camau i ddiogelu bwyd ac ynni yn y tymor hir a diogelu ein hadnoddau naturiol.
- Byddwn yn gweithredu caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, er budd y gadwyn gyflenwi leol a hyrwyddo economi gylchol yn lleol.
- Gan weithio o fewn cyd-destun Strategaeth Drafndiaeth Cymru, byddwn yn ceisio cefnogi'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol i gael mynediad i addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a gweithgareddau.
- Byddwn yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngwynedd a Môn gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb.

Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?

Cysylltiadau i'r 5 Ffordd o Weithio:

Cysylltiadau i'r 7 Nod Llesiant:

Amcan Llesiant 2: Rydym am weithio gyda'n gilydd i flaenoriaethu lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc

Uchelgais:

Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac yn annibynnol o fewn eu cymunedau i'r hir dymor. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentynod ac yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweledigaeth glir ymysg y partneriaid allweddol i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

Be gallem ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:

- Byddwn yn hyrwyddo a Chydlynu'r Cynllun Blynnyddoedd Cynnar
- Byddwn yn ceisio cydlynu strategaethau i fynd ar afael ar ordewdra ymysg plant.
- Byddwn yn ymrwymo i gynlluniau'r Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru sy'n cwmpasu'r gweithgarwch i amddiffyn poblogaeth gogledd Cymru gan gynnwys gwaith penodol i ddiogelu pobl ifanc.
- Byddwn yn cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl o bob oed, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed neu yn ein gofal, yn wydn ac yn barod ar gyfer cyflogaeth, addysg

<p>bellach neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys edrych ar Sgiliau Gwyrdd ar gyfer y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli o safon, profiad gwaith a phrentisiaethau. • Byddwn yn clymu hyfforddiant trawma ar sail profiad niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) lle mae hyn yn briodol.
Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?
Cysylltiadau i'r 5 Ffordd o Weithio:
Cysylltiadau i'r 7 Nod Llesiant:

Amcan Llesiant 3: Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon

<p>Uchelgais: Byddwn yn cydweithio yn lleol i gefnogi ein cymunedau i leihau allyriadau carbon a cheisio lliniaru effaith newid hinsawdd. Mae'r Bwrdd yn ystyried bod gwarchod yr amgylchedd naturiol yn rhan amlwg o gyflawni ei flaenoriaethau a bydd yn thema cyffredin sy'n rhedeg ar draws yr holl amcanion Llesiant.</p>
<p>Be gallem ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn ceisio cyflawni gweithgaredd datgarboneiddio o fewn ein cymunedau. • Byddwn yn cefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon. • Byddwn yn defnyddio ein tirwedd i storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd. • Byddwn yn hyrwyddo a gweithredu'r Siarter Teithio Llesol. • Byddwn yn optimeiddio cyfleoedd iechyd gwyrdd trwy bresgripsiwn cymdeithasol. • Byddwn yn gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, tra'n cynyddu ac annog mynediad cyfartal i'n hamgylchedd naturiol. Mae hyn yn cynnwys mynediad i fannau gwyrdd o gefn gwlad, a mannau arfordirol glas. • Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r buddion a ddaw yn sgil ein hasedau naturiol unigryw a chynyddu ein harlwy twristiaeth gynaliadwy. • Byddwn yn gweithio gyda ac yn cefnogi cymunedau sydd eisiau rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol ac yn grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol.
Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?
Cysylltiadau i'r 5 Ffordd o Weithio:
Cysylltiadau i'r 7 Nod Llesiant:

6. Sut rydym wedi datblygu'r Amcanion Llesiant arfaethedig

Wedi ystyried y prif negeseuon a amlygwyd yn yr Asesiadau Llesiant, cynhaliwyd cyfres o weithdai dros haf 2022 gydag aelodau'r Bwrdd er mwyn canfod barn ynglŷn â pha feysydd i'w blaenoriaethu. Gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, rhoddodd y gweithdai gyfle i aelodau adlewyrchu ar y Cynllun Llesiant blaenorol wrth ystyried y cwestiynau canlynol:

A. Edrych yn ôl ar Gynllun Llesiant 2017-22:

- Sut wnaethom ni yn erbyn y ddau amcan/naw thema yn y cynllun blaenorol?
- Be sydd wedi newid a dylanwadu ar lesiant ein cymunedau yn y 5 mlynedd diwethaf?

B. Edrych ymlaen at Gynllun Llesiant 2023-28:

- Gan edrych ar yr asesiadau wedi'u diweddarau ar gyfer 2022 beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y BGC?
- A oes blaenoriaethau lle mae gweithredu eisoes yn digwydd yn effeithiol tu allan i sgôp y BGC?
- Beth allwn ni ei wneud i sicrhau bod y BGC yn ychwanegu gwerth gyda'i gilydd yn hytrach na gweithio ar wahân?
- Beth fyddai'n sicrhau bod y Cynllun Llesiant newydd yn llwyddiant?

Wrth i'r Bwrdd feddwl am yr amcanion lleol i'r dyfodol dilynwyd argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn dweud 'Wrth bennu ei amcanion lleol, rhaid i fwrdd hefyd ystyried yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf a baratowyd gan y Comisiynydd. Bydd hwn yn rhoi asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a bodloni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.'

Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen cydweithio ynddynt er mwyn gwneud gwir wahaniaeth. Ar ôl dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill maent wedi blaenoriaethu tri maes penodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma. Mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector cyhoeddus, credwn fod y rhain yn feysydd lle gallwn gydweithio yn well i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

7. Beth yw'r camau nesaf?

Byddwn yn darparu sawl cyfle i chi roi eich barn fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Llesiant yma. Rydym yn awyddus i dderbyn sylwadau sydd unai yn cefnogi'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y ddogfen yma neu yn codi pwyntiau nad ydym wedi eu hystyried eto a byddwn yn rhoi sylw i'r rhain cyn cyflwyno'r Cynllun Llesiant newydd.

Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dod i ben ar **06/03/23**. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u hystyried gan Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac wedi hynny byddwn yn cadarnhau ein hamcanion llesiant, y meysydd blaenoriaeth a'r rhaglen waith ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Mae'n bwysig nodi y bydd y Cynllun Llesiant yn ddogfen fyw fydd yn newid a datblygu dros amser.

Bydd y Cynllun Llesiant gorffenedig i Gwynedd a Môn yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Er mwyn derbyn mwy o wybodaeth am waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ewch i:

www.llesiantgwyneddamon.org

post@llesiantgwyneddamon.org

Rhif ffôn: 01766 771000

Gofynnwch am:

Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

ATODIAD 1 – Prif negeseuon o’r Aseidiadau Llesiant a gwblhawyd yn 2022:

Mae’r llyfrynnau yn edrych ar lesiant yng nghyd-destun y pedwar prif bennawd yn y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** – sef Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Mae pennawd ychwanegol wedi ei ychwanegu, sef ‘Poblogaeth a Iaith’ gan fod y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd y thema benodol yma i’r ardal.

Poblogaeth a iaith:

- Rhagwelir y bydd mwy o bobl dros 75 oed i’r dyfodol sy’n golygu bod angen cefnogi poblogaeth sy’n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal.
- Ystyrir Ynys Môn a Gwynedd yn gadarnleoedd i’r Gymraeg ond gwelwyd gostyngiad yn y canran o siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf.
- Mae ein cymunedau yn poeni am yr effaith mae mudo, twristiaeth, argaeledd tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd yn ei gael ar y Gymraeg.

Amgylcheddol:

- Mae amgylchfyd naturiol amrywiol Ynys Môn a Gwynedd yn adnodd pwysig. Mae arfordir, llynnoedd ac afonydd, corysdd a choedwigoedd yn cael effaith bositif ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.
- Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang sy’n cael effaith ar lesiant ein trigolion. Mae’n arwain at gymunedau sydd o dan risg uchel o lifogydd, tywydd eithriadol a thirlithriadau ac yn rhoi ein byd natur a chynefinoedd o dan bwysau cynyddol.
- Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn datgarboneiddio. Yn Ynys Môn a Gwynedd ceir cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol sy’n storio’r carbon sy’n cyfrannu at lefel nwyon tŷ gwydr.
- Mae amaethyddiaeth yn sector bwysig i Môn a Gwynedd ac mae angen cefnogi ein ffermwyr i ddatblygu ffermio sy’n fwy cynaliadwy er mwyn cyfrannu at datgarboneiddio.
- Mae cynnal dyfodol gwyrdd yn flaenoriaeth i gymunedau Môn a Gwynedd. Mae sgysiau efo trigolion wedi amlygu’r awch am ardaloedd eco-gyfeillgar sy’n gwneud y mwyaf o’u hadnoddau naturiol.

Cymdeithasol:

- Mae pryder am lefel gordewdra ymysg plant 4-5 oed ar draws y rhanbarth, â’r canran uchaf o blith holl siroedd rhanbarth Gogledd Cymru yma yn ein hardal ni. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y ganran yn debygol o godi o ganlyniad i effaith Covid-19 a’r cyfnod clo.
- Mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hirdymor ar iechyd y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar iechyd meddwl a chorfforol (er enghraifft, Covid-Hir) a gwaethygu nifer yr anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli.
- Amlygwyd diffyg trafndiaeth gyhoeddus fel her enfawr i gymunedau cefn gwlad. Roedd amllder gwasanaethau bws yn golygu ei bod yn anodd i drigolion gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau, ac mae’n debygol o effeithio’n waeth ar rai grwpiau, er enghraifft, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn.
- Mae ysbryd cymunedol yn un o brif asedau’r ddwy sir ac amlygwyd hyn ym mharodrwydd trigolion i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod Covid-19.
- Mae diffyg cyswllt digidol yn rhwystr i bobl a busnesau’r ddwy sir. Mae gweithio ac addysgu o bell yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd argaeledd band-eang.

Economaidd:

- Rhagwelir newidiadau mewn sectorau gwaith ac yn y patrwm gwaith i'r dyfodol. Mae angen sicrhau cyfleoedd hygyrch i bawb mewn galwedigaethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.
- Mae canran uchel o bobl Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio yn y galwedigaethau crefftau medrus (sy'n cynnwys ffermwyr a gweithwyr amaeth). Mae Brexit a'r lleihad mewn grantiau a chymorth ariannol wedi cael effaith ar y sector yma.
- Mae tlodi o bob math yn bryder ar draws y ddwy sir. Mae gennym un o'r canrannau uchaf yng Nghymru o dlodi tanwydd. Roedd yr ymateb i'r llyfrynnau drafft yn amlygu pryder am dlodi, mewn cyfnod ble mae costau byw o bob math yn codi.
- Mae swyddi cyflogau isel yn bryder mawr ac roedd sicrhau swyddi gwerth uchel yn flaenoriaeth i gymunedau a thrigolion y ddwy sir. Yn ogystal â'i effaith ar yr economi, mae hefyd yn ei gwneud yn anodd i gadw pobl ifanc yn y sir, ac felly'n effeithio ar yr iaith Gymraeg.
- Mae prisiau a fforddiadwyedd tai yn un o brif bryderon cymunedau lleol ar draws y ddwy sir ac yn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd. Pryder arall y mae cymunedau wedi sôn amdano yw'r sefyllfa ail dai / tai haf. Un dangosydd yw'r cynnydd mewn 'troseddau casineb' sydd wedi ei adrodd gan yr Heddlu.
- Mae twristiaeth yn cyfrannu at economïau Môn a Gwynedd ac yn sector gwaith pwysig, ond hefyd yn her ychwanegol i wasanaethau lleol a byd natur. Fe gafodd Covid-19 effaith negyddol ar sector llety a bwyd y wlad o ganlyniad i'r cyfyngiadau, ac mae hyn wedi bod yn fwy amlwg mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth.
- Mae pryder am gyflwr economi leol y 'stryd fawr' neu 'ganol y dref'. Amlygwyd hyn ym Mangor, Caergybi a sawl tref arall.
- O'i gymharu â ffigwr Cymru gyfan, mae canran uchel o adawyr ysgol blwyddyn 11 yn ein ardal yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).
- Mae darpariaeth gofal plant yn ddarpariaeth bwysig i economi ein hardaloedd. Mae diffyg darpariaeth cynaliadwy yn effeithio ar gymunedau mewn rhai ardaloedd yn y ddwy sir ac mae hefyd bryder am nifer y darpariaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

Diwylliannol:

- Mae'r amgylchedd naturiol yn adnodd hollbwysig sy'n cyfrannu at lesiant ac iechyd gan ei bod yn galluogi ein trigolion i fod yn actif yn yr awyr iach.
- Mae diffyg gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bryder i gymunedau Ynys Môn a Gwynedd a mae pryder bod hyn yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae manau gwyrdd yn hollbwysig i lesiant trigolion, ond mae angen gwneud yn siŵr fod mynediad hygyrch atynt fel bod modd i bawb eu defnyddio.
- Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cynnig cyfle i fagu balchder mewn bro a hanes (yr Tirwedd Llechi a Cestyll Edward I), ond mae pryder ynghylch eu heffaith ar dwristiaeth a bod angen sicrhau buddion i gymunedau lleol.
- Roedd trigolion yn mynegi balchder bod gennym ddiwylliant cryf, bywiog sy'n cael ei adlewyrchu yn y nifer o gymdeithasau, eisteddfodau, Clybiau Ffermwyr Ifanc, sioeau a chyngherddau sy'n cael eu cynnal yn lleol.

Linc i'r wefan: www.llesiantgwyneddamon.org/cy

Atodiad 2: Sut y byddwn yn gweithredu i'r dyfodol?

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gweithredu yn unol â saith egwyddor arweiniol. Mae pump o'r rhain yn cydymffurfio â'r **pum ffordd o weithio** a amlinellir yn y Ddeddf a dau wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd yn lleol. Bydd yr egwyddorion yma yn ein helpu i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau yr ydym yn eu wynebu i'r dyfodol:

Hyrwyddo'r iaith Gymraeg	<i>Bydd yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Mae'n amcan sy'n torri ar draws holl waith y Bwrdd a byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.</i>
Lleihau anghydraddoldeb	<i>Byddwn yn parhau i dargedu adnoddau lleol a chenedlaethol o bwys i daclo anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch sylweddol rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a'r cymunedau mwyaf difreintiedig</i>
Meddwl am y tymor hir	Byddwn yn parhau i gasglu data i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cymunedau yn edrych ar hyn o bryd, a sut y byddant yn edrych yn y dyfodol o ganlyniad i ffactorau fel newid demograffeg. Byddwn hefyd yn edrych i weld pa newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar y gorwel a cheisio dadansoddi'r effaith ar ein cymunedau ni. Drwy hyn gallwn gydweithio fel partneriaid a thrigolion i gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.
Atal problemau	Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w hatal. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau i'w galluogi i wneud mwy i atal problemau rhag datblygu a chefnogi rhaglenni all wneud gwahaniaeth go iawn yn y tymor hir.
Cydweithio yn well	Byddwn yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng aelodau'r Bwrdd a'n trigolion am yr hyn sy'n cael ei wneud i wireddu amcanion a blaenoriaethau. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Bwrdd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y partneriaid cywir yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni ein hamcanion.
Integreiddio	Byddwn yn gweithredu mewn ffordd fydd yn cyfrannu at fwy nag un amcan ble bo'n briodol ac yn unol ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ceisio integreiddio gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Byddwn yn ystyried strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol eraill sy'n gweithio tuag at yr un amcanion neu amcanion tebyg ac yn cydweithio er mwyn eu cyflawni.
Cynnwys ein cymunedau	Mae gan ein trigolion a'n cymunedau rôl bwysig i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n ganolog i'r broses o gynllunio gwaith y Bwrdd. Byddwn yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer pob oedran ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio o fewn y safonau hynny. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu â'r Bwrdd yn eu hiaith a'u cyfrwng o'u dewis.

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	17 Ionawr, 2023
Pwnc:	Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru, Chwarter 2 2022/23
Pwrpas yr Adroddiad:	Cyflwyno Adroddiad Chwarter 2 Cynllun Twf Gogledd Cymru
Cadeirydd Sgriwtini:	Cyng Dylan Rees
Aelod(au) Portfolio:	Cyng. Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor Cyng. Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Datblygu'r Economi, Hamdden a Thwristiaeth
Pennaeth Gwasanaeth:	Dylan Williams. Prif Weithredwr
Awdur yr Adroddiad:	Dylan Williams, Prif Weithredwr
Rhif Ffôn:	01248 752499
E-bost:	DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1 Nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod chwarter 2 2022/23

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyngor trwy:

- Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor- swyddi a chyfleoedd gwaith
- Gweithio gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad i sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol yn mynd rhagddo

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

3.1 Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]

3.4 Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

5 – Cefndir / Cyd-destun

Cefndir

5.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

5.2 Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

5.3 Cynnydd Chwarter 2 2022/23

5.3.1 Mae adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

5.3.2 Y chwarter hwn, gwelwyd achos busnes amlinellol arall yn cael ei gymeradwyo, gyda phrosiect dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru, Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf, rhan o'r Rhaglen Ddigidol, yn sicrhau cymeradwyaeth i symud i'r wedd nesaf.

5.3.3 Mae diweddariad Chwarter 2 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2022. Mae tri phrosiect yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd naill ai yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel – prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a referniw. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio bellach yn gweithio gydag ariannwr y prosiect i edrych ar opsiynau i gyflymu cyflawniad y prosiect.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio i'w sicrhau a bwllch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu.
- Fferm Sero Net Llysfasi – y prosiect yn destun adolygiad o ganlyniad i heriau yn deillio o adborth adolygiad Gateway 2.

5.3.4 Mae prosiect Safle Strategol Allweddol Bodolwyddan, oedd yn adrodd yn goch yn adroddiad chwarter 1, wedi cael ei dynnu allan o'r Cynllun Twf. Bydd y cyllid a glustnodwyd yn amodol i'r prosiect yn cael ei gadw o fewn y Cynllun Twf a

bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid er mwyn uchafu'r buddion i'r rhanbarth.

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Bydd y Byrddau Rhaglen a'r Byrddau Prosiect yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer bob prosiect unigol. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni.

6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Gweler 6.1 uchod

6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Gweler 6.1 uchod

7 – Goblygiadau Ariannol

7.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

8 – Atodiadau

1. Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Tudalen 68

Cynllun Twf Gogledd Cymru

2022-23 Chwarter 2

(Gorffennaf i Fedi 2022)

Adroddiad Perfformiad

1.	Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio	3
2.	Perfformiad Cyffredinol y Portffolio	4
3.	Perfformiad y Rhaglen Ddigidol	5
4.	Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel	8
5.	Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo	11
6.	Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth	14
7.	Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	16
8.	Diweddariad ar Gynnydd y Prosiectau.....	18
9.	Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022	19
10.	Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni (Mehefin 2022)	20
11.	Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022	20
12.	Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyranriad Cyllid Cyfalaf	21
	ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf	22

Yn ystod y chwarter hwn gwelsom rai datblygiadau sylweddol wrth gyflawni'r Cynllun Twf.

Yn gyntaf, cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect **Ychydig % Olaf**, o fewn ein rhaglen Cysylltedd Digidol. Mae hwn yn brosiect pwysig yn y Cynllun Twf, sy'n ceisio **mynd i'r afael â her cysylltedd** ar draws y rhanbarth lle nad yw nifer o gartrefi a chymunedau yn gallu cael mynediad at fand eang cyflym iawn. Wrth i ni nawr symud i'r cyfnod caffael, byddwn yn ymgysylltu â'r farchnad i **geisio atebion arloesol** i'r broblem hon, gyda'r nod o ddarparu cysylltedd band eang cyflym iawn i bob safle lle mae pobl yn byw yn y tymor byr, gyda gallu uwchraddio gigabit wedi'i adeiladu cyn belled ag y bo modd.

Dros yr haf, mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n galed i **ddiweddaru ein Hachos Busnes Portffolio** ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Hydref. Mae hyn yn rhan o'n diweddariad blynyddol cyn cyflwyno i Lywodraethau Cymru a'r DU ac mae'n gyfle i adolygu proffiliau cyflenwi a chymryd stoc o'r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae cyflymder y cyflawni wedi bod yn arafach na'r disgwyl, gyda'r PMO yn delio â rhai heriau mawr, gan gynnwys prosiectau'n cael eu hadolygu, oedi i ddatblygiad achosion busnes a'r her fforddiadwyedd bresennol sy'n effeithio ar bob rhaglen gyfalaf wrth i gostau godi.

Gan fod y Cynllun Twf yn bortffolio o brosiectau i'w cyflawni dros gyfnod o 15 mlynedd roedd wastad i'w ddisgwyl y byddai angen rhai newidiadau.

Ym mis Medi, gwnaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd y penderfyniad i **dynnu prosiect Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan yn ôl** o'r rhaglen Tir ac Eiddo. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn trafodaethau eang â Chyngor Sir Ddinbych ac yn sgil y newidiadau sylweddol ym maint disgwylidig y prosiect a'r amserlenni ar gyfer ei gyflwyno. Ond mae'n bwysig nodi bod yr arian sydd wedi'i ddyrannu dros dro i'r prosiect yn cael ei **gadw o fewn y Cynllun Twf** ac ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae hyn yn **gyfle cyffrous** i ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r arian i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Ogledd Cymru.



Alwen Williams

Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

Themâu	Statws RAG	Sylwadau
Achos Busnes y Portffolio		Bydd diweddariad Achos Busnes Portffolio 2022 yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref i'w gymeradwyo cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
Piblinell Cyflawni		Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddar fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig.
Llywodraethu		Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau.
Sicrwydd		Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr' ar gyfer y portffolio.
Adnoddau a Chapasiti		Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i staffio'n llawn ar hyn o bryd, ond mae angen adolygu adnoddau wrth symud i gam darparu'r Cynllun Twf.
Cyllid		Mae'r hawliad cyntaf ar gyfer prosiect y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol wedi'i dalu, roedd hyn yn cynnwys gwariant yn 21/22 yn ogystal â 22/23 o gyfanswm o £590,748. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 15% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.
Buddsoddiad		Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi.
Risg		Mae'r proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf, er bod rhai risgiau sylweddol i gyflawni'r Cynllun Twf a gwireddu'r buddion. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod y risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn.
Monitro a Gwerthuso Buddion		Cafodd y Strategaeth Gwireddu Buddion a Chynlluniau Monitro a Gwerthuso Portffolio eu hadolygu fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022, gyda newidiadau yn cynnwys modelau rhesymeg wedi'u diweddar (sy'n adlewyrchu terminoleg fframwaith buddion y cytunwyd arnynt), drafftio cynlluniau buddion rhaglenni a chysylltiadau cliriach â chynlluniau buddion prosiect.
Cyfathrebu ac Ymgysylltu		Yn ystod y chwarter, fe wnaethom lansio ein Prosiect Cynllun Twf cyntaf, y Ganolfan DSP , yn swyddogol gyda digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor. Mynychodd Prif Weinidog Cymru ac Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru y digwyddiadau, yn ogystal â rhanddeiliaid o bob cwr o'r byd. Roeddem hefyd yn dathlu busnesau yn y rhanbarth wrth i ni noddi gwobr 'North Wales start-up' yng ngwobrau Wales Start-up yn Depot, Caerdydd.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus.	380	£158m	£41.7m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tudalen 72	<ul style="list-style-type: none"> Mae hawliad cyntaf prosiect DSP bellach wedi ei dalu gan Uchelgais Gogledd Cymru i Brifysgol Bangor. Mae'r cyntaf o ddau Achos Cyfiawnhad Busnes (ar gyfer gwariant blwyddyn 2) bellach i fod i gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn Chwarter 3. Mae buddion cyntaf y prosiect bellach wedi'u hadrodd i'r Bwrdd Rhaglen (4 swydd uniongyrchol wedi'u creu gyda 50% mewn ymchwil, datblygu ac arloesi) Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol y prosiect Ychydig % olaf gan y Bwrdd Uchelgais y chwarter hwn. Yn hwyrach na'r disgwyl mae'r data am safleoedd Adolygu Cyhoeddus Band Eang Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r cynllun caffael sydd nawr i fod i ddechrau yn Chwarter 3. Roedd caffael cefnogaeth ymgynghori ar gyfer y Campws Cysylltiedig a phrosiectau Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig yn aflwyddiannus yn Chwarter 2, gan gyfyngu ar y cynnydd ar gyflwyno achosion Busnes Amlinellol Strategol fodd bynnag mae drafftiau cychwynnol wedi'u cynhyrchu gan y Swyddfa Rheoli Portfolio ar gyfer datblygu pellach unwaith y bydd cefnogaeth yn ei lle, mis Tachwedd 2022 yw'r disgwyliad bellach. Mae gwaith ehangach yn parhau gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth gan gynnwys prosiect Cronfa Band Eang Lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ymgysylltu â'r Swyddfa Gartref a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Parc Eryri a gweithredwyr ffonau symudol ar fynd i'r afael â rhwystrau rhanbarthol i brosiect Rhwydwaith Gwledig a Rennir gan y DU (darpariaeth 4G) a chydlynu diddordeb rhanbarthol mewn 'cytundebau marchnata' i hyrwyddo defnydd o asedau sector cyhoeddus i gefnogi defnyddio rhwydweithiau symudol.



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Reolwr Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

Tudalen 73

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor	Cyflwyno	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno eitemau Blwyddyn 1 olaf Hawlio a thalu gwariant Blwyddyn 1 yn llawn Adroddwyd y buddion cyntaf (4 swydd uniongyrchol wedi'u creu gyda 50% mewn ymchwil, datblygu ac arloesi) 	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno'r Achos Cyfiawnhad Busnes cyntaf ar gyfer gwariant Blwyddyn 2 Adolygiad Porth 4 		<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd ar y trywydd iawn heb unrhyw rwystrau wedi'u hadnabod
Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad Bwrdd Portffolio a Grŵp Cyflawni Busnes o'r Achos Busnes Amlinellol Adolygiad Bwrdd Uchelgais a chymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol Paratoi i ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad Canlyniad Adolygiad Cyhoeddus LIC o ddarpariaeth band eang Manyleb fasnachol wedi'i chwblhau Cymeradwyaeth ddirprwyedig i'r dull caffael 	<ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar wedi'i gwblhau Strategaeth a manyleb rhannu'n eitemau wedi'u cytuno Dogfennaeth y contract wedi'u cwblhau Cynllun caffael wedi'i gwblhau 		<ul style="list-style-type: none"> Canlyniad Adolygiad Cyhoeddus LIC wedi oedi ymgysylltu â'r farchnad a drafftio cynllun a manyleb caffael. Mae'r wybodaeth bellach yn cael ei derbyn ond ni all fwrw ymlaen i ymgysylltu â'r farchnad hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn gyhoeddus
Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yn y gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol Dirprwy SRO dros dro wedi'i benodi Swyddfa Rheoli Portffolio wedi drafftio Achos Amlinellol Strategol cychwynnol 	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio cefnogaeth ymgynghorol Drafftio a chymeradwyo Achos Amlinellol Strategol 		<ul style="list-style-type: none"> Aflwyddiannus yn caffael cefnogaeth ymgynghorol yn Ch2 (bellach wedi'i raglennu ar gyfer Tach 22)
Campysau Cysylltiedig Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yn y gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol Swyddfa Rheoli Portffolio wedi drafftio Achos Amlinellol Strategol cychwynnol 	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio cefnogaeth ymgynghorol Drafftio a chymeradwyo Achos Amlinellol Strategol 		<ul style="list-style-type: none"> Aflwyddiannus yn caffael cefnogaeth ymgynghorol yn Ch2 (bellach wedi'i raglennu ar gyfer Tach 22)

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Nod y Rhaglen	Targed Creu Swyddi	Targed Buddsoddi GVA	Cyfanswm Targed Buddsoddi
Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.	980	£530m	£668.5m

Statws RAG	Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen
Tudalen 74	<ul style="list-style-type: none"> Ynni Lleol Blaengar: Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol gan ganolbwyntio ar ystyried yr opsiynau manwl ar gyfer y gronfa arfaethedig. Yr angen i benodi arbenigwr cronfa newydd yn creu risg bach o oedi. Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen): Ymarferiad ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad wedi'i gyflawni ac mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cymeradwyo cam nesaf caffael partner i ddatblygu achos busnes a chyflawni hwb hydrogen. Egni: Bangor Cyflwynodd y Brifysgol gynnog ar gyfer cyflawni prosiect mewn dau gam. Byddai cam 1 yn cynnwys adeilad newydd posib ar safle M-SParc. Byddai Cam 2 yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gwariant offer yn ogystal â'r gwaith adeiladu mawr ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesi Deiniol (DSIC). Rhoddodd y Bwrdd Portffolio gyfarwyddyd i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gydweithio â Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r cynigion yn fanylach. Morlais: Mae cais Menter Môn i newid wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd hyn yn arwain at Fenter Môn yn datblygu achos busnes newydd. Trawsfynydd: Prosiect yn parhau i ddatblygu gyda chynnig Cwmni Egino yn cyflawni proses ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad ac yn datblygu bid i Gronfa Future Nuclear Enabling Llywodraeth y DU. Cynllun Gweithredu Strategaeth Ynni Rhanbarthol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ac mae caffael contractwr ar gyfer y Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar waith.



Cyng Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Reolwr Cyfrifol



Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)	Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)	Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	---	---

Tudalen 75

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Cydnherth (Morlais) Menter Môn	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais gymeradwyo cais Menter Môn i newid am yr hyn y bydd yr £9m a ddyrannwyd i'r prosiect yn ei ariannu. Prosiect Cydnherth yw enw'r prosiect newydd hwn • Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau i gynllunio ac amserlennu. • Sicrhaodd Magallanes, un o ddatblygwyr llanw Morlais, gontract am wahaniaeth i'r pŵer a gynhyrchir o'u angorfa ym mharth Morlais. Bydd hyn yn galluogi cam cyntaf datblygiad Morlais a chyfle i ddarparu swyddi lleol a chyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi. 	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Achos Busnes Amlinellol a chyflwyno gweithdai. 		<ul style="list-style-type: none"> • Prosiect ar y trywydd iawn â dim risgiau na materion mawr yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i gais Menter Môn i newid
Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r broses Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw. Profodd hyn i fod yn ymarferiad profi'r farchnad yn gynnar effeithiol, gydag ymatebion gan chwaraewyr allweddol yn y sector hydrogen yn cadarnhau diddordeb mewn partneru ag Uchelgais Gogledd Cymru i ddarparu hwb hydrogen. • Cymeradwyo'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer darparu proses gaffael i gyflwyno partner. • Penodi ymgynghorwyr i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r broses gaffael. 	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu'r fanyleb gaffael. • Lansio'r broses gaffael i gyflwyno partner. 		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r opsiynau ar gyfer caffael partner yn cael eu hasesu. Mae sgôr ambr yn adlewyrchu'r risg y gallai'r broses gaffael fod yn hirach na'r disgwyl.

	Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu)		Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle)		Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys)
--	--	--	---	--	---

Tudalen 76

Prosiect (Ariannwr y Prosiect)	Cam y Prosiect	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)	Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)	Statws RAG	Rhesymeg RAG
Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) Prifysgol Bangor	<i>Prosiect yn cael ei adolygu</i>	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynodd y Brifysgol gynig ar gyfer cyflawni prosiect mewn dau gam. Byddai cam 1 yn cynnwys adeilad newydd posib ar safle M-SParc. Byddai Cam 2 yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gwariant offer yn ogystal â'r gwaith adeiladu mawr ar y DSIC. Rhoddodd y Bwrdd Portffolio gyfarwyddyd i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gydweithio â Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r cynigion. 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cam 1. Cadarnhau Rhaglen Gyfalaf Prifysgol Bangor a'r manylion cysylltiedig ynghylch Cam 2. 		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi dro ar ôl tro mewn prosiectau ac effaith cais newid cyllid cyfalaf ar Amcanion Gwariant y Rhaglen. Sgôr i'w hadolygu yn dilyn cadarnhad o Gam 2
Ynni Lleol Blaengar Bwrdd Uchelgais Economaidd	Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau holiadur ymgysylltu â'r farchnad gyda dros 50 o ymatebion wedi'u derbyn. Cynhaliwyd gweithdy gyda Bwrdd Rhaglen a Phrosiect ar yr 17 Awst i drafod opsiynau ariannu. Strategaeth y Gronfa Ddrafft a dderbyniwyd gan Hatch. Derbyniwyd adroddiadau drafft ar gyfer astudiaethau dichonoldeb system ynni lleol blaengar a ariennir gan CRF. 	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyaeth y Bwrdd Prosiect a Rhaglen o'r Strategaeth Gronfa. Penodi ymgynghorydd i gefnogi gyda datblygiad parhaus yr achos busnes amlinellol. Adolygiad y Swyddfa Rheoli Portffolio o'r achos busnes amlinellol drafft. 		<ul style="list-style-type: none"> Sgôr ambr oherwydd yr oedi posibl a achosir gan angen annisgwyl i benodi ymgynghorydd arbenigol cronfa newydd
